



CYNULLIAD CENEDLAEYHOL CYMRU  
NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2001 Rhif 1337 (Cy.83)**

**LLYWODRAETH LEOL, CYMRU**

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth  
Gorau) (Cymru) 2001

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2001 No. 1337 (W.83)**

**LOCAL GOVERNMENT, WALES**

The Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales)  
Order 2001

*Made* 27th March 2001

*Coming into force* 1st April 2001

**£10.50**





CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2001 Rhif 1337 (Cy.83)**

**2001 No. 1337 (W.83)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

**Gorchymyn Llywodraeth Leol  
(Dangosyddion Perfformiad  
Gwerth Gorau) (Cymru) 2001**

**The Local Government (Best Value  
Performance Indicators) (Wales)  
Order 2001**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn.)*

*(This note is not part of the Order.)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi, ar gyfer Cymru, ddangosyddion perfformiad y cyfeirir atynt er mwyn mesur perfformiad y cynghorau sir, y cynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (fel awdurdodau gwerth gorau), wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, o 1 Ebrill 2001 ymlaen.

This Order prescribes, for Wales, performance indicators by reference to which the performance of county councils, county borough councils and National Park authorities (as best value authorities), in exercising their functions, will be measured from 1st April 2001.

Gwneir y Gorchymyn yn unol ag adrannau 4(1)(a) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999. Mae adran 4(3) o'r Ddeddf honno yn gosod rhwymedigaeth ar y Cynulliad Cenedlaethol i ymgynghori, cyn gwneud Gorchymyn o'r math hwn, â phersonau y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli'r awdurdodau gwerth gorau o dan sylw ac unrhyw bersonau eraill (os oes rhai) y gwêl yn dda. Mae'r gofyniad hwn i ymgynghori wedi'i fodloni cyn i'r Gorchymyn hwn gael ei wneud.

The Order is made in accordance with sections 4(1)(a) and (2) of the Local Government Act 1999. Section 4(3) of that Act imposes an obligation on the National Assembly to consult, prior to the making of an Order of this nature, persons appearing to represent the best value authorities concerned and such other persons (if any) as it thinks fit. This consultation requirement has been fulfilled prior to the making of this Order.

Mae Erthygl 3 yn diffinio pa awdurdodau gwerth gorau y bydd yn rhaid mesur eu perfformiad, mewn perthynas â swyddogaethau penodol, drwy gyfeirio at y dangosyddion perfformiad penodedig a bennir yn Erthygl 4.

Article 3 defines which best value authorities will be subjected to the measure of their performance, in respect of certain functions, by reference to specified performance indicators as detailed in Article 4.

Drwy gyfeirio at yr Atodlenni, mae Erthygl 4 yn rhagnodi pa ddangosyddion perfformiad a gaiff eu defnyddio i fesur pa swyddogaethau ar gyfer y gwahanol awdurdodau gwerth gorau.

Article 4 prescribes, by reference to the Schedules, which performance indicators will be used to measure performance of which functions for the respective best value authorities.

Mae Atodlenni 1 i 12 yn manylu ar y dangosyddion rhagnodedig ar gyfer y gwahanol swyddogaethau fel a ganlyn:

Atodlen 1 - Llywodraeth Gorfforaethol

Atodlen 2 - Addysg

Atodlen 3 - Gwasanaethau Cymdeithasol

Atodlen 4 - Tai

Atodlen 5 - Gwasanaethau'r Amgylchedd

Atodlen 6 - Trafnidiaeth

Atodlen 7 - Cynllunio

Atodlen 8 - Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach.

Atodlen 9 - Gwasanaethau Diwylliannol a Pherthynol

Atodlen 10 - Llywodraeth Gorfforaethol Awdurdod Parciau Cenedlaethol

Atodlen 11 - Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor

Atodlen 12 - Diogelwch Cymunedol Trawsbynciol

Schedules 1 to 12 detail the prescribed indicators for different functions as follows:

Schedule 1 - Corporate Governance

Schedule 2 - Education

Schedule 3 - Social Services

Schedule 4 - Housing

Schedule 5 - Environment Services

Schedule 6 - Transport

Schedule 7 - Planning

Schedule 8 - Environmental Health & Trading Standards

Schedule 9 - Cultural and Related Services

Schedule 10 - National Parks Authority Corporate Governance

Schedule 11 - Housing Benefit and Council Tax Benefit

Schedule 12 - Cross Cutting Community Safety

**2001 Rhif 1337 (Cy.83)****2001 No. 1337 (W.83)****LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU****LOCAL GOVERNMENT,  
WALES****Gorchymyn Llywodraeth Leol  
(Dangosyddion Perfformiad  
Gwerth Gorau) (Cymru) 2001****The Local Government (Best Value  
Performance Indicators) (Wales)  
Order 2001***Wedi'i wneud**27 Mawrth 2001**Made**27th March 2001**Yn dod i rym**1 Ebrill 2001**Coming into force**1st April 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adrannau 4(1)(a) a (2) a 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(a) a hynny ar ôl yr ymgynghori y mae adran 4(3) o'r Ddeddf honno yn gofyn amdano.

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the power conferred on it by sections 4(1)(a) and (2) and 29(1) of the Local Government Act 1999(a) and after the consultation required by section 4(3) of that Act.

**Enwi, Cychwyn a Chymhwyso**

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2001 a daw i rym ar 1 Ebrill 2001.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Name, Commencement and Application**

1.-(1) This Order is called the Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2001 and it comes into force on 1st April 2001.

(2) This Order applies only to Wales.

**Diddymu**

2. Diddymir Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2000(b).

**Revocation**

2. The Local Government (Best Value Performance Indicators) (Wales) Order 2000(b) is revoked.

**Dehongli**

3. Yn y Gorchymyn hwn-

ystyr "awdurdod gwerth gorau" ("best value authority") yw'r canlynol:

- mewn perthynas â rhan 1 o'r Tabl yn erthygl 4, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, gan gynnwys, lle bo'n briodol, y cynghorau hynny yn gweithredu fel awdurdodau gwaredu gwastraff
- mewn perthynas â rhan 2 o'r Tabl hwnnw, awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol

**Interpretation**

3. In this Order-

"best value authority" ("awdurdod gwerth gorau") means:

- in relation to part 1 of the Table in article 4, county councils and county borough councils including, where appropriate, such councils acting as waste disposal authorities
- in relation to part 2 of that Table, National Park authorities

(a) 1999 p.27

(b) O.S. 2000 Rhif 1030 (Cy.65)

(a) 1999 c.27.

(b) SI 2000 No.1030 (W.65)

#### **Dangosyddion Perfformiad**

4. Rhaid i berfformiad awdurdod gwerth gorau wrth arfer ei swyddogaethau gael ei fesur drwy gyfeirio at y dangosyddion perfformiad a bennir yn y Tabl isod mewn perthynas â'r swyddogaethau a nodir yn y Tabl.

#### **Performance Indicators**

4. The performance of a best value authority in exercising its functions shall be measured by reference to the performance indicators specified in the Table listed below in respect of the functions identified in the Table.

**TABL**

Swyddogaethau'r Awdurdodau Gwerth Gorau a'r Dangosyddion Perfformiad y Mesurir Perfformiad y Swyddogaethau hynny drwyddynt
<b><u>Rhan 1</u></b>
<b>Llywodraeth Gorfforaethol</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 1
<b>Addysg</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 2
<b>Gwasanaethau Cymdeithasol</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 3
<b>Tai</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 4
<b>Gwasanaethau'r Amgylchedd</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 5
<b>Trafnidiaeth</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 6
<b>Cynllunio</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 7
<b>Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 8
<b>Gwasanaethau Diwylliannol a Pherthynol</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 9
<b>Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 11
<b>Diogelwch Cymunedol Trawsbynciol</b>
Pob dangosydd yn Atodlen 12
<b><u>Rhan 2</u></b>
<b>Llywodraeth Gorfforaethol Awdurdod Parciau Cenedlaethol</b>
Pob dangosydd yn Atodlenni 10 a 7

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

27 Mawrth 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(a) 1998 p.38.

**TABLE**

Best Value Authority Functions and Performance Indicators By Which Performance of Those Functions Will Be Measured
<b><u>Part 1</u></b>
<b>Corporate Governance</b>
All indicators in Schedule 1
<b>Education</b>
All indicators in Schedule 2
<b>Social Services</b>
All indicators in Schedule 3
<b>Housing</b>
All indicators in Schedule 4
<b>Environment Services</b>
All indicators in Schedule 5
<b>Transport</b>
All indicators in Schedule 6
<b>Planning</b>
All indicators in Schedule 7
<b>Environmental Health and Trading Standards</b>
All indicators in Schedule 8
<b>Cultural and Related Services</b>
All indicators in Schedule 9
<b>Housing Benefit and Council Tax Benefit</b>
All indicators in Schedule 11
<b>Cross Cutting Community Safety</b>
All indicators in Schedule 12
<b><u>Part 2</u></b>
<b>National Parks Authority Corporate Governance</b>
All indicators in Schedules 10 and 7

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

27th March 2001

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 c.38.

## ATODLEN 1

## DANGOSYDDION PERFFORMIAD CYFFREDINOL

Rhif y Dangosydd	Disgrifiad y dangosydd	Manylion y dangosydd
NAWPI 1.1	Lefel cydymffurfio â chynllun Iaith Gymraeg yr awdurdod gwerth gorau a gymeradwywyd yn ôl yr adroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.	<p>Mae lefel gyffredinol cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg cymeradwy yr awdurdod gwerth gorau fel y'i cadarnhawyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg fel a ganlyn:</p> <p>Cyflwyno gwasanaethau: da iawn; da; gweddol; gwael</p> <p>Rheoli'r cynllun: da iawn; da; gweddol; gwael</p> <p>Ile gellir ychwanegu 'ac/ond yn gwella' neu 'ac/ond yn dirywio' at lefel y perfformiad lle bo'n gymwys.</p>
NAWPI 1.2	Lefel safon y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer llywodraeth leol y mae'r awdurdod gwerth gorau yn cydymffurfio â hi.	<p>Diffinnir lefelau'r safon ar gyfer llywodraeth leol yn y bennod sy'n dwyn y teitl "Measurements" yn nogfennau'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol sy'n dwyn y teitlau "Auditing for Equality" a "Racial Equality means Quality". Dylai awdurdodau gwerth gorau gyflwyno adroddiad fel a ganlyn ar y lefel y maent wedi'i chyrraedd :-</p> <p>Lefel 1: Mae'r awdurdod gwerth gorau wedi ysgrifennu datganiad polisi ar hiliaeth.</p> <p>Lefel 2: Mae gan yr awdurdod gwerth gorau gynllun gweithredu ar gyfer monitro a llwyddo yn ei bolisi cydraddoldeb hiliol.</p> <p>Lefel 3: Defnyddir canlyniadau monitro ethnig yn erbyn y polisi cydraddoldeb a lefel ymgynghori â chymunedau lleol i adolygu polisi cyffredinol yr awdurdod gwerth gorau.</p> <p>Lefel 4: Gall yr awdurdod gwerth gorau ddangos gwelliannau clir yn ei wasanaethau yn sgil monitro, ymgynghori â chymunedau lleol, a gweithredu yn ôl ei bolisiau cyfleoedd cyfartal.</p> <p>Lefel 5: Mae'r awdurdod gwerth gorau yn enghraifft o ymarfer gorau yn y ffordd y mae'n monitro ac yn darparu gwasanaethau i leiafrifoedd ethnig, ac yn helpu awdurdodau gwerth gorau eraill i gyrraedd safonau uchel. Rhaid cael cadarnhad bod yr awdurdod gwerth gorau wedi cyrraedd y lefel hon gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol.</p>



		Er mwyn cyflwyno adroddiad ar y lefelau hyn, rhaid bod awdurdod gwerth gorau wedi mabwysiadu safon y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer llywodraeth leol. Os nad yw'r awdurdod gwerth gorau wedi mabwysiadu'r safon hon, dylai adrodd fel a ganlyn: "Nid yw'r awdurdod hwn wedi mabwysiadu safon y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer llywodraeth leol".
NAWPI 1.3	Nifer y cwynion i Ombudsman a ddsberthir fel camweinyddu.	Nifer yr achosion a gofnodwyd ac yr adroddwyd arnynt i'r awdurdodau gan y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru ac a ddsberthir fel "camweinyddu'n achosi anghyfiawnder" neu "camweinyddu".
NAWPI 1.4	Nifer canrannol y rhai a bledleisiodd mewn etholiadau lleol.	Diffinnir "nifer y rhai a bledleisiodd" fel y gyfran ar y gofrestr etholwyr sy'n pledleisio mewn unrhyw etholiad yn y flwyddyn ac eithrio is-etholiadau unigol. Pan nad oes etholiad yn y flwyddyn ariannol honno, dylai'r awdurdodau gwerth gorau adrodd nifer y rhai a bledleisiodd yn yr etholiad diweddaraf un.
NAWPI 1.5	Y ganran o gydadweithiau â'r cyhoedd, yn ôl math o darfodaeth, y gellir eu cyflwyno drwy wasanaeth electronig sydd yn cael eu cyflwyno wrth ddefnyddio protocolau rhyngwyd a dulliau dibapur eraill.	<p>Ystyr cydadweithau yw unrhyw gysylltiad rhwng dinesydd ac awdurdod gwerth gorau gan gynnwys (yn ôl y math):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu gwybodaeth</li> <li>• Casglu cyllid</li> <li>• Darparu budd-daliadau a grantiau</li> <li>• Ymgynghori</li> <li>• Rheoleiddio (megis rhoi trwyddedau)</li> <li>• Ceisiadau am wasanaethau</li> <li>• Archebu lleoedd, adnoddau a chysiau.</li> <li>• Talu am nwyddau a gwasanaethau.</li> <li>• Darparu mynediad i rwydweithiau cymunedol, proffesiynol a busnes ac adrannau caffael</li> </ul> <p>Dylid diffinio 100% o fewn strategaeth e-lywodraeth yr awdurdod gwerth gorau i gymryd amgylchiadau lleol i ystyriaeth yn seiliedig ar y rhestr lawn o wasanaethau y mae'r awdurdod gwerth gorau yn gyfrifol amdanynt a'r mathau o gydadweithiau sy'n berthnasol i bob gwasanaeth.</p> <p>Mae'r dangosydd yn rhagdybio y gellir galluogi pob gwasanaeth ar gyfer cyflwyno electronig onid oes rheswm cyfreithiol neu weithredol pam na ellir gwneud hyn.</p> <p>Ystyr "electronig" yw cyflwyno drwy brotocolau rhyngwyd a dulliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (ICT) eraill ac mae'n cynnwys cyflwyno dros y ffôn os yw'r drafodaeth wedi'i galluogi'n electronaidd h.y. mae'r swyddog sy'n derbyn yr alwad yn gallu cael gaffael ar wybodaeth electronig ac/neu yn diweddarau cofnodion ar-lein yn y fan a'r lle.</p>

<p>NAWPI 1.6</p>	<p>Y ganran o anfonebau diddadiol a dalwyd gan yr awdurdod gwerth gorau o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn yr anfonebau gan yr awdurdod gwerth gorau.</p>	<p>Er mwyn cael y ganran hon bydd angen i'r awdurdod gwerth gorau rannu nifer yr holl anfonebau am nwyddau a gwasanaethau masnachol a dalwyd i gcontractwyr a chyflenwyr allanol o fewn 30 diwrnod o'u derbyn yn ystod y flwyddyn ariannol, â chyfanswm yr holl anfonebau a dalwyd gan yr awdurdod gwerth gorau yn y flwyddyn honno, a lluosir canlyniad â 100.</p> <p>Caiff yr awdurdodau gwerth gorau ddiystyru anfonebau a anfonwyd i ysgolion ac a dalwyd o gyllidebau a ddirprwywyd i ysgolion.</p> <p>Yn y dangosydd hwn, ac at ddibenion canfod a yw'r awdurdod gwerth gorau wedi talu'r anfoneb o fewn y cyfnod o 30 diwrnod, bydd y cyfnod yn dechrau ar yr adeg y cafwyd yr anfoneb gan yr awdurdod gwerth gorau (nid adran dalu'r awdurdod gwerth gorau). Yna, bydd yr awdurdod gwerth gorau yn talu'r anfoneb honno o fewn 30 diwrnod. Mae talu'n cynnwys -</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• anfon siec neu offeryn talu arall;</li> <li>• hysbysu'r banc ar gyfer taliadau trwy gyfrwng Gwasanaeth Clirio Awtomatig y Bancwyr; neu</li> <li>• prosesu'r taliad gan y banc os yw'r awdurdod gwerth gorau yn pennu cyfnod y mae'r banc i wneud y taliadau ar ei ôl cyn gynted ag y mae'n cael tâp Gwasanaeth Clirio Awtomatig y Bancwyr (BACS).</li> </ul> <p>Pan nad yw'r awdurdod gwerth gorau yn cofnodi'r dyddiad y mae'n cael yr anfoneb, dylai ychwanegu dau ddiwrnod at ddyddiad yr anfoneb oni bai ei fod wedi samplu anfonebau yn ystod y flwyddyn honno er mwyn cael cyfnod mwy cywir i'w ychwanegu at y dyddiad.</p> <p>Os defnyddir samplu, dylai'r sampl fod yn nodweddiadol yn fras o'r holl anfonebau a geir gan adrannau gwahanol ac ar adegau gwahanol o'r flwyddyn, a dylai gynnwys o leiaf 500 anfoneb.</p> <p>Os ceir anfoneb cyn i'r gwasanaethau gael eu darparu neu i'r nwyddau ddod i law, mae'r 30 diwrnod neu unrhyw gyfnod arall y cytunir arno yn dechrau pan geir y nwyddau'n foddhaol neu pan gwblheir y gwasanaethau'n foddhaol.</p>
----------------------	---	--

<p>NAWPI 1.7</p>	<p>Swm y dreth gyngor a gafwyd yn y flwyddyn ariannol fel canran o gyfanswm y debyd ar gyfer y flwyddyn ariannol.</p>	<p>Ni ddylai swm y dreth gyngor a geir gynnwys unrhyw ôl-ddyledion treth gyngor a geir mewn perthynas â blynyddoedd cyn y flwyddyn ariannol, nac unrhyw ragdaliadau o dreth gyngor mewn perthynas â blynyddoedd yn dilyn y flwyddyn ariannol. Ni ddylai cyfanswm y debyd ar gyfer y flwyddyn ariannol gynnwys unrhyw ôl-ddyledion treth gyngor sy'n ddyledus mewn perthynas â blynyddoedd cyn y flwyddyn ariannol. Dylai pob ffigur beidio â chynnwys budd-daliadau neu ad-daliadau treth gyngor, p'un a delir hwy gan lywodraeth leol neu gan y llywodraeth ganolog.</p>
<p>NAWPI 1.8</p>	<p>Swm yr ardrethi annomestig sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn ariannol, wedi'i addasu ar gyfer rhyddhad trosiannol, yn llai rhyddhad ar eiddo bach a phob rhyddhad gorfodol.</p>	<p>Ni ddylai swm yr ardrethi annomestig gynnwys unrhyw ôl-ddyledion ardrethi annomestig a geir mewn perthynas â blynyddoedd cyn y flwyddyn ariannol, nac unrhyw ragdaliadau o ardrethi annomestig mewn perthynas â blynyddoedd yn dilyn y flwyddyn ariannol. Ni ddylai ffigur yr ardrethi gros taladwy ar gyfer y flwyddyn ariannol gynnwys unrhyw ôl-ddyledion ardrethi annomestig sy'n ddyledus mewn perthynas â blynyddoedd cyn y flwyddyn ariannol.</p>
<p>NAWPI 1.9</p>	<p>Y ganran o swyddi rheoli uwch a ddelir gan fenywod.</p>	<p>Bydd angen i'r dangosydd hwn adlewyrchu'r sefyllfa ar 31 Mawrth yn y flwyddyn ariannol.</p> <p>Amcangyfrifir y ganran drwy gyfrifo nifer y menywod mewn swydd ar lefel rheolaeth uwch fel canran o'r holl staff mewn swydd ar lefel rheolaeth uwch, lle diffinnir "rheolaeth uwch" fel y tair haen uchaf rheolaeth yn yr awdurdod gwerth gorau. Mae Prif Weithredwyr a Dirprwy Brif Weithredwyr yn cyfrif fel un haen i'r diben hwn.</p> <p>Dylid eithrio'r holl staff mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau o'r cyfrif hwn.</p>
<p>NAWPI 1.10</p>	<p>Y nifer o'r dyddiau gwaith/sifftiau am bob staff cyfwerth amser llawn a gollwyd trwy absenoldeb oherwydd salwch.</p>	<p>Ceir y gyfran o ddyddiau neu sifftiau a gollir o achos absenoldeb drwy salwch wrth i'r awdurdod gwerth gorau gyfrifo'r rhifiadur a'r enwadur fel y diffinnir hwy isod.</p> <p>Ystyr " dyddiau / sifftiau gwaith" yw'r dyddiau / sifftiau a restrwyd ar gyfer gwaith, ar ôl tynnu allan unrhyw ddyddiau o wyliau neu ryddhad.</p> <p>Diffinnir y rhifiadur fel y cyfanswm o'r dyddiau gwaith a gollwyd o achos absenoldeb drwy salwch heb ystyried a ardystiwyd hynny gan y person ei hunan neu drwy dystysgrif ymarferydd cyffredinol neu a yw'n absenoldeb drwy salwch hir-dymor. Bydd hyn yn cynnwys y dyddiau a gollwyd o achos salwch gan holl weithwyr parhaol awdurdod gwerth gorau, gan gynnwys athrawon, staff a gyflogir mewn ysgolion a staff a gyflogir mewn Cyrff Llafur Uniongyrchol a Chyrff Gwasanaeth</p>

		<p>Uniongyrchol. Er hynny, at ddibenion y rhifiadur hwn, dylid anwybyddu'r dyddiau a gollwyd o achos salwch gan staff dros dro neu gan staff asiantaeth. Yn ychwanegol, dylid anwybyddu hefyd y dyddiau a gollwyd gan staff ar seibiant mamolaeth neu dadolaeth.</p> <p>Diffinnir yr enwadur fel nifer cyfartalog y staff Cyfwerth ag Amser Llawn sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdod gwerth gorau o fewn blwyddyn ariannol. Ar gyfer staff sy'n gweithio'n rhan amser, dylai'r awdurdod gwerth gorau gyfrifo'r hyn sy'n Gyfwerth ag Amser Llawn ar gyfer y rhifiadur a'r enwadur ar sail gyson.</p>
NAWPI 1.12	Ymddeoliadau ar sail afiechyd fel canran o weithlu llawn yr awdurdod gwerth gorau.	<p>Gall "ymddeoliad ar sail afiechyd" ddigwydd ar unrhyw oedran pan fydd ymarferydd meddygol cofrestredig annibynnol â chymhwyster mewn iechyd galwedigaethol wedi ardystio fod y gweithiwr yn barhaol analluog i berfformio dyletswyddau'r gyflogaeth honno neu gyflogaeth mewn awdurdod gwerth gorau sydd ar y cyfan yn gyflogaeth y gellir ei chymharu â hi gyda'i awdurdod cyflogi gwerth gorau o achos afiechyd neu eiddilwch meddwl neu gorff.</p> <p>Cyfrifir y dangosydd hwn fel a ganlyn: Nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd, wedi'i rannu â chyfanswm nifer staff yr awdurdod gwerth gorau, wedi'i luosi â 100.</p> <p>At ddibenion cyfrifo'r dangosydd hwn, dylid cynnwys staff mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau.</p>
NAWPI 1.13	Nifer y staff sy'n datgan eu bod yn ateb y diffiniad o anabledd yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 fel canran o weithlu'r awdurdod gwerth gorau.	<p>Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (1995 p.50) yn datgan "a person has a disability for the purposes of this Act if he has a physical or mental impairment which has a substantial and long-term adverse effect on his ability to carry out normal day-to-day activities."</p> <p>Cyfrifir y dangosydd fel a ganlyn: Nifer y staff anabl, wedi'i rannu â chyfanswm nifer staff yr awdurdod gwerth gorau, wedi'i luosi â 100.</p> <p>At ddibenion cyfrifo'r dangosydd hwn, dylid cynnwys staff mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau.</p>

<p>NAWPI 1.14</p>	<p>Y ganran o weithwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol o fewn gweithlu'r awdurdod gwerth gorau.</p>	<p>Bydd yr awdurdod gwerth gorau yn cyfrifo'r dangosydd hwn drwy rannu nifer y staff o gymunedau ethnig lleiafrifol yn yr awdurdod gwerth gorau â nifer llawn staff yr awdurdod gwerth gorau. Bydd canlyniad y rhaniad hwn wedyn yn cael ei luosi â 100.</p> <p>At ddibenion cyfrifo'r dangosydd hwn, dylid cynnwys staff mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau.</p>
<p>NAWPI 1.15</p>	<p>Y ganran o adeiladau'r awdurdod gwerth gorau sy'n agored i'r cyhoedd ac sy'n addas ac yn hygyrch i bobl anabl.</p>	<p>Cyfrifir y ganran drwy rannu nifer yr adeiladau sy'n addas ac yn hygyrch i bobl anabl gan y nifer o adeiladau sy'n agored i'r cyhoedd, wedi'i luosi â 100.</p> <p>At ddiben y dangosydd hwn, ystyr "adeiladau" yw adeiladau y mae'r awdurdod gwerth gorau yn darparu gwasanaeth ohonynt, ac y mae rhan ohonynt fel arfer yn agored i aelodau'r cyhoedd, (ond gan eithrio toiledau cyhoeddus nad ydynt yn rhan annatod o adeiladau o'r fath, ysgolion a sefydliadau addysgol).</p> <p>Mae ystyr "yn addas ac yn hygyrch i bobl anabl" i'w ddehongli yn unol â Rhan M o Atodlen 1 i Reoliadau Adeiladu 2000 (O.S. 2000/2531).</p>
<p>NAWPI 1.16</p>	<p>Digwyddiadau hiliol</p> <p>a) nifer y digwyddiadau hiliol a gofnodir gan yr awdurdod gwerth gorau am bob 100,000 o'i boblogaeth</p> <p>b) y ganran o'r digwyddiadau hiliol a arweiniodd at weithredu pellach.</p>	<p>Ystyr "digwyddiadau hiliol" yw unrhyw ddigwyddiadau a ystyrir yn rhai o'r fath gan y dioddefydd, yr heddlu neu swyddogion awdurdod gwerth gorau. Mae'r dangosydd yn gymwys i bob un o wasanaethau'r awdurdod gwerth gorau gan gynnwys ysgolion a chyflogaeth gan yr awdurdod gwerth gorau.</p> <p>Ystyr "gweithredu pellach" yw cofnodi'r digwyddiad hiliol mewn ysgrifen ac mae'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>i) ymchwiliadau manwl, er enghraifft, cyfweiliadau gyda'r cyflwynydd / cyflawnwyr honedig</li> <li>ii) atgyfeirio i'r heddlu neu gorff arall (er enghraifft y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol neu'r Ganolfan Gyngori)</li> <li>iii) cyflafareddu</li> <li>iv) rhybudd i'r cyflwynydd neu'r cyflawnwyr (y mae'n rhaid ei gofnodi ar y pryd os ar lafar)</li> <li>v) adleoli'r dioddefydd</li> <li>vi) dileu'r graffiti tramgwyddus</li> </ul>

<p>NAWPI 1.17</p>	<p>Y nifer o leoedd mewn lloches rhag trais domestig am bob 10,000 o'r boblogaeth a ddarperir neu a gefnogir gan yr awdurdod gwerth gorau.</p>	<p>Ystyr "lleoedd" yw nifer yr ystafelloedd sy'n darparu lleoedd gwelyau i ddioddefydd trais domestig a'i phlant neu a'i blant. Ni ellir cyfrif yn y cyfanswm ystafelloedd na ddynodir fel arfer yn ystafelloedd gwely. Dylai'r ffigurau adlewyrchu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.</p> <p>Os yw'r awdurdod gwerth gorau yn cyllido sefydliad yn rhannol yna gall hawlio credyd (o ran lleoedd gwelyau) pro rata am ei gyfraniad i gostau cynnal y sefydliad.</p> <p>Ystyr "lloches rhag trais domestig" yw llety mewn argyfwng i bersonau a gyfeiriwyd at gymorth ar ôl iddynt brofi bygythiadau i'w diogelwch corfforol, a rhaid iddynt ddarparu cymorth, cyngor a chymorth digonol yn ogystal â bod yn rhan o ymagwedd leol integredig at drais domestig sy'n cynnwys partneriaeth gyda chyrff lleol a statudol eraill.</p>
-----------------------	--	---

## ATODLEN 2

## DANGOSYDDION ADDYSG

Rhif y Dangosydd	Disgrifiad y dangosydd	Manylion y dangosydd
NAWPI 2.1	Cyfartaledd sgôr pwyntiau TGAU/GNVQ plant 15/16 oed mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau.	Cyfanswm nifer y pwyntiau a enillwyd cyn neu yn ystod haf y flwyddyn ariannol gan y disgyblion 15 oed ar 31 Awst o'r flwyddyn flaenorol ac ar gofrestr yr ysgol ar adeg Cyfrifiad Blynyddol Ysgolion yn Ionawr y flwyddyn ariannol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau wedi'u rhannu gan nifer y disgyblion hynny.  Pwyntiau fel y nodir hwy yn Atodiad F i Gylchlythyr CCC 4/99.
NAWPI 2.2	Canran y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau yn yr haf blaenorol sy'n ennill 5 TGAU neu fwy gyda graddau A* i C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol.	Canran y disgyblion 15 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol ac ar gofrestr yr ysgol ar adeg Cyfrifiad Blynyddol Ysgolion yn Ionawr y flwyddyn ariannol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau sy'n ennill pump neu fwy o raddau TGAU A* i C neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfatebol yn yr arholiadau a gynhelir yn haf y flwyddyn ariannol a phan yw'n berthnasol mewn arholiadau blaenorol yn ystod y flwyddyn ariannol.
NAWPI 2.3	Canran y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau sy'n ennill un TGAU neu fwy gyda gradd G neu uwch neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol.	Canran y disgyblion 15 oed ar 31 Awst yn y flwyddyn cyn y flwyddyn ariannol ac ar gofrestr yr ysgol yn Ionawr y flwyddyn ariannol ar adeg Cyfrifiad Blynyddol Ysgolion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau sy'n ennill un TGAU neu fwy gyda gradd G neu uwch neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfatebol yn yr arholiadau a gynhelir yn haf y flwyddyn a phan yw'n berthnasol mewn arholiadau blaenord yn ystod y flwyddyn ariannol.
NAWPI 2.4	Canran y plant 11 oed Mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau yn yr haf cyn y flwyddyn ariannol sy'n ennill:  (a) Lefel 4 neu'n uwch na hynny ym mhrawf Mathemateg Cyfnod	Gweler Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb Heb Ganiatâd) (Cymru) 1999 [O.S. 1999 Rhif 1811] a ddaeth i rym ar 1 Medi 1999.  Mae'r canrannau'n berthnasol i ddisgyblion sy'n cael eu hasesu yn y pynciau unigol.

	<p>Allweddol 2.</p> <p>b) Lefel 4 neu'n uwch na hynny ym mhrawf Saesneg Cyfnod Allweddol 2</p> <p>c) Lefel 4 neu'n uwch na hynny ar raddfa'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Cymraeg (iaith gyntaf)</p> <p>ch) Lefel 4 neu'n uwch na hynny ar raddfa'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Gwyddoniaeth.</p>	
NAWPI 2.5	<p>Canran y plant 14 oed mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau yn yr haf cyn y flwyddyn ariannol sy'n ennill:</p> <p>(a) Lefel 5 neu'n uwch na hynny ar raddfa'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Mathemateg.</p> <p>(b) Lefel 5 neu'n uwch na hynny ar raddfa'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Saesneg.</p> <p>(c) Lefel 5 neu'n uwch na hynny ar raddfa'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Cymraeg (iaith gyntaf).</p> <p>(ch) Lefel 5 neu'n uwch na hynny ar raddfa'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Gwyddoniaeth.</p>	<p>Gweler Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb Heb Ganiatâd) (Cymru) 1999 [O.S. 1999 Rhif 1811] a ddaeth i rym ar 1 Medi 1999.</p> <p>Mae'r canrannau'n berthnasol i ddisgyblion sy'n cael eu hasesu yn y pynciau unigol.</p>
NAWPI 2.6	<p>Canran y plant 15/16 oed sy'n ennill y "dangosydd pwnc craidd" - Y disgyblion hynny sy'n ennill gradd C o leiaf mewn TGAU, Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth mewn cyfuniad.</p>	<p>Gweler Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb Heb Ganiatâd) (Cymru) 1999 [O.S. 1999 Rhif 1811] a ddaeth i rym ar 1 Medi 1999.</p> <p>Mae'r canrannau'n berthnasol i ddisgyblion sy'n cael eu hasesu yn y pynciau unigol.</p>



NAWPI 2.7	Canran y plant 15/16 oed sy'n ymadael ag addysg amser-llawn heb gymhwyster cydnabyddedig.	Gweler Rheoliadau Addysg (Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb Heb Ganiatâd) (Cymru) 1999 [O.S. 1999 Rhif 1811] a ddaeth i rym ar 1 Medi 1999.
NAWPI 2.8	<p>Nifer y disgyblion a waharddwyd yn barhaol yn ystod y flwyddyn o ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau am bob 1000 o ddisgyblion ar gofrestri ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau:</p> <p>(a) mewn ysgolion cynradd.</p> <p>(b) mewn ysgolion uwchradd.</p> <p>(c) mewn ysgolion arbennig.</p>	Y cyfnod o dan sylw yw'r flwyddyn academiaidd yn dechrau ym mis Medi yn union o flaen y flwyddyn ariannol. Cesglir yr wybodaeth yn Ffurflen Monitro Gwaharddiadau Parhaol (bob tymor).
NAWPI 2.9	Y ganran o hanner diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb mewn ysgolion uwchradd a gynhelir gan yr awdurdod gwerth gorau.	<p>Mae'r cyfnod yn cychwyn ar ddechrau'r flwyddyn ysgol ac yn diweddu ar ddyddiad yr Wyl Banc hwyr ym mis Mai yn y flwyddyn ariannol. Cesglir yr wybodaeth ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Gwybodaeth Perfformiad Ysgolion: Ffurflen Presenoldeb Disgyblion ar gyfer y flwyddyn academiaidd sy'n dechrau yn y mis Medi cyn y flwyddyn ariannol (eitem (c) fel canran o eitem (a)).</p> <p>Nid yw ysgolion uwchradd yn cynnwys ysgolion arbennig.</p>
NAWPI 2.11	<p>Y ganran o'r disgyblion a waharddwyd yn barhaol sy'n dilyn:</p> <p>a) llai na deng awr yr wythnos o addysgu arall</p> <p>b) rhwng deg a phum awr ar hugain yr wythnos o addysgu arall</p> <p>c) rhagor na phum awr ar hugain yr wythnos o addysgu arall.</p>	<p>Cyfrifir y dangosydd drwy gymryd nifer yr oriau o addysgu arall a ddilynir mewn gwirionedd yn ystod y flwyddyn ariannol gan ddisgybl tra bo wedi ei wahardd yn barhaol, rhannu'r oriau hynny gyda nifer y dyddiau ysgol pan oedd y disgybl wedi ei wahardd yn barhaol yn ystod y flwyddyn ariannol a lluosir'r canlyniad gyda phump i gael y cyfartaledd wythnosol. Yna gosodir y ffigur ar gyfer pob disgybl yn y band priodol:</p> <p>(a) llai na 10 awr</p> <p>(b) 10-25 awr</p> <p>(c) mwy na 25 awr</p>

		Mae addysgu arall yn cynnwys addysgu gartref, unedau cyfeirio disgyblion, unrhyw addysgu wyneb i wyneb arall neu amser a dreilir mewn unrhyw sefydliad addysg. Pan ryddheir disgybl a waharddwyd i baratoi ar gyfer arholiadau TGAU, yn unol â pholisi arferol yr awdurdod gwerth gorau ar ryddhad arholiad, ni ddylid cynnwys y cyfnod hwnnw yn y cyfrifiad.
NAWPI 2.12	<p>Y ganran o'r dosbarthiadau ysgol gynradd gyda rhagor na 30 disgybl yn y blynyddoedd:</p> <p>(a) derbyn i flwyddyn dau yn gynwysedig</p> <p>(b) tri i chwech.</p>	<p>Mae'r dangosydd hwn fel yn y blychau priodol yn CCC STATS 1 Ffurflen ysgol gynradd Eitem 1.4, ond ar gyfer y golofn 'dosbarthiadau cyffredin' yn unig.</p> <p>Pan fo dau neu ragor o athrawon yn addysgu dosbarth, dylid cyfrif nifer y dosbarthiadau ar ôl rhannu nifer y disgyblion yn y dosbarth gyda'r nifer perthnasol o athrawon - e.e. dylid cyfrif 40 disgybl a addysgir gan ddau o athrawon fel dau ddosbarth o 20 disgybl.</p> <p>Dylid cyfrif dosbarthiadau yn cynnwys plant yn y blynyddoedd y cyfeirir atynt yn (a) a (b) fel (a).</p>
NAWPI 2.13	<p>a) Nifer y datganiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn.</p> <p>b) Y ganran o'r datganiadau anghenion addysgol arbennig a baratowyd o fewn 18 wythnos, gan eithrio y rhai a gyfrifir yn "eithriadau i'r rheol" yn unol â'r Cod Ymarfer SEN.</p>	<p>a) Mae hwn fel a geir yn CCC STATS 2, cyfanswm eitem 3. Y ffigurau sy'n ofynnol gan y dangosydd hwn yw rhai'r flwyddyn galendr yn cychwyn ym mis Ionawr cyn y flwyddyn ariannol.</p> <p>b) Datganiadau a baratoir o fewn 18 wythnos fel canran o'r holl ddatganiadau (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag asiantaethau eraill) Ni ddylid cynnwys achosion lle y mae unrhyw un o'r eithriadau a restrir ym mharagraffau 3.40 i 3.42. yn y Cod Ymarfer Anghenion Addysg Arbennig (SEN) yn gymwys. Y ganran yw nifer y datganiadau y cyfeirir atynt uchod wedi'u rhannu â nifer y datganiadau a roddwyd yn ystod y flwyddyn a'i luosi â 100.</p>

## ATODLEN 3

## DANGOSYDDION Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Rhif y Dangosydd	Disgrifiad y dangosydd	Manylion y dangosydd
NAWPI 3.1	Sefydlogrwydd lleoliadau'r plant yn derbyn gofal gan yr awdurdod gwerth gorau drwy gyfeirio at ganran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a gafodd dri lleoliad neu ragor yn ystod y flwyddyn ariannol.	<p>Ystyr y rhifiadur o'r plant a ddiffiniwyd yn yr enwadur isod, yw'r nifer a gafodd dri lleoliad neu ragor (fel y'i diffinnir gan y casgliad 903 SSDA) yn ystod y flwyddyn ariannol yn diwedd 31 Mawrth. Cynhwyswch unrhyw leoliadau a oedd eisoes yn agored ar 1 Ebrill ar ddechrau'r flwyddyn, ac unrhyw rai a oedd yn agored ar 31 Mawrth ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhwyswch bob lleoliad a ystyrir yn rhai 'dros dro'; yr unig eithriadau yw'r achosion arbennig canlynol:- cyfnodau i ffwrdd dros dro ar wyliau neu mewn ysbyty neu gyfnodau eraill o absenoldeb dros dro am saith diwrnod dilynol neu lai, gyda'r plentyn wedyn yn dychwelyd fel a gynlluniwyd i'r lleoliad blaenorol.</p> <p>Ystyr yr enwadur yw cyfanswm plant yn derbyn gofal ar 31 Mawrth. Peidiwch â chynnwys yn y cyfrif unrhyw blant a oedd yn derbyn gofal ar y dyddiad hwnnw o dan gyfres gytûn o leoliadau tymor-byr (o dan ddarpariaethau Rheoliad 13 o Reoliadau Trefniadau Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991 O.S. 1991/890).</p> <p>Dylai'r rhifiadur gael ei rannu â'r enwadur a llusoi â 100 i gael y ganran.</p>
NAWPI 3.2	Cymwysterau addysgol plant sy'n derbyn gofal drwy gyfeirio at y ganran o'r bobl ifanc 16 oed a throsodd sy'n gadael gofal gydag o leiaf un TGAU gradd A* i G neu Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol (GNVQ).	<p>Ystyr y rhifiadur yw'r nifer hwnnw o bobl ifanc wrth adael gofal, a enillodd o leiaf un TGAU, gyda gradd A*-G, neu GNVQ. Cynhwyswch gymwysterau a enillwyd cyn i'r person ifanc dderbyn gofal neu yn sgil arholiadau a gymerwyd tra oedd yn derbyn gofal, hyd yn oed os cafodd y canlyniadau eu cyhoeddi ar ôl i'r person ifanc beidio â derbyn gofal. Cynhwyswch gyrsiau byr TGAU, GNVQs rhan un neu GNVQs llawn ar lefel sylfaen neu lefel ganolradd, ac unedau iaith GNVQ. Peidiwch â chynnwys Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQs)</p> <p>Ystyr yr enwadur yw nifer y bobl ifanc a beidiodd â derbyn gofal yn ystod y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth yn 16 oed neu drosodd. Cynhwyswch bawb yn y grŵp oedran hwn a ymadawodd â gofal, ni waeth ers faint y buont yn derbyn gofal cyn ymadael, ond peidiwch â chynnwys pobl ifanc a beidiodd â derbyn gofal ar ôl ei dderbyn yn ystod y flwyddyn mewn cyfres gytûn o leoliadau byrdymor yn unig.</p>

		Dylai'r rhifiadur gael ei rannu â'r enwadur a llusoi â 100 i gael y ganran.
NAWPI 3.3	Y ganran o bobl ifanc mewn gofal ar eu pen-blwydd yn 16 oed y mae ganddynt gynllun addas ar gyfer eu gofal parhaol.	<p>Y rhifiadur: ei ystyr yw nifer y bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod gwerth gorau yn y flwyddyn ar eu pen-blwydd yn 16 oed oedd â chynllun ysgrifenedig ar y dyddiad hwnnw. Cynlluniau o'r fath yw:</p> <p>(a) cynlluniau gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (gweler Rheoliad 3 o Reoliadau Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991 (OS 1991/890) a'r Guidance to the Children Act 1989 (1989 p.41) Cyfrol 3, a Chyfrol 4, Pennod 2.</p> <p>(b) cynlluniau trywydd ar gyfer plant "cymwys", h.y. plant sy'n derbyn gofal ar ôl 16-17 oed a oedd yn derbyn gofal am fwy na 13 wythnos gronnol ers 14 oed (gweler paragraffau 19b(4) a (5) o Ran II o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989).</p> <p>Yr enwadur: ei ystyr yw nifer y bobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod gwerth gorau a gafodd eu pen-blwydd yn 16 oed yn y flwyddyn ariannol.</p> <p>Dylid rhannu'r rhifiadur â'r enwadur a'i luosi â 100 i gael y ganran.</p>
NAWPI 3.4	Canran y lleoliadau cyntaf (i blant sy'n derbyn gofal) sy'n dechrau gyda chynllun gofal.	<p>Y rhifiadur: Nifer y lleoliadau cyntaf yn y y flwyddyn a oedd â chynllun gofal, fel y'i diffiniwyd ar gyfer dangosydd 3.3, i'r plentyn ar ddechrau'r lleoliad.</p> <p>Yr enwadur: Cyfanswm nifer y lleoliadau cyntaf a ddechreuwyd yn y flwyddyn.</p> <p>Dylid rhannu'r rhifiadur â'r enwadur a'i luosi â 100 i gael y ganran.</p>
NAWPI 3.5	Costau gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod gwerth gorau drwy gyfeirio at wariant wythnosol gros am bob plentyn y gofelir amdano, mewn gofal maeth neu gartref i blant.	<p>Ystyr y rhifiadur yw'r gwariant gros ar blant yn derbyn gofal mewn cartrefi gofal maeth a chartrefi plant yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth. Ceir hyn o'r ffurflen Alldro Refeniw 3 (RO3), llinellau 11 a 17. Diffinnir gwariant gros o RO3 fel swm costau cyflogedigion (colofn 1) a chostau rhedeg gan gynnwys cyd-drefniadau (colofn 2) llai incwm arall gan gynnwys cyd-drefniadau (colofn 5).</p> <p>Ystyr yr enwadur yw'r cyfanswm o wythnosau a dreuliwyd gan y plant mewn cartrefi gofal maeth a chartrefi plant yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth. O dan gartrefi plant</p>

		<p>cynhwyswch gartrefi cymunedol, cartrefi gwirfoddol a hosteli a chartefi plant cofrestredig preifat. Peidiwch â chynnwys unrhyw leoliadau yn y cyfrif a oedd yn rhan o gyfres gytûn o leoliadau tymor-byr (o dan ddarpariaethau Rheoliad 13 o Reoliadau Trefn Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991 O.S. 1991/890). Dylid seilio'r cyfrif ar gyfanswm y diwrnodau gofal wedi'u rhannu â saith.</p>
<p>NAWPI 3.6</p>	<p>Cost gofal preswyl neu ofal cartref i oedolion drwy gyfeirio at gost gros bob wythnos</p>	<p>Cyfartaledd cost wythnosol gros darparu gofal preswyl neu ofal cartref i oedolion.</p> <p>Ystyr y rhifiadur yw'r gwariant gros ar ofal preswyl a gofal nyrsio a chymorth /gofal cartref i bob grŵp o gleientau sy'n oedolion gan gynnwys pobl oedrannus (£miloedd) yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth. Ceir hyn o'r ffurflen Alldro Refeniw 3 (RO3), llinellau (32 i 34+38+48 i 50+54+64 i 66+70+84 i 86+90). Diffinnir gwariant gros o RO3 fel swm costau cyflogedigion (colofn 1) a chostau rhedeg gan gynnwys cyd-drefniadau (colofn 2) llai incwm arall gan gynnwys cyd-drefniadau (colofn 5).</p> <p>Ystyr yr enwadur yw cyfanswm yr wythnosau y cynhaliwyd pob grŵp o gleientau sy'n oedolion gan gynnwys pobl oedrannus mewn gofal preswyl a gofal nyrsio a hefyd cyfanswm nifer yr wythnosau yr oedd cleientau sy'n oedolion gan gynnwys pobl oedrannus yn cael gofal cartref.</p> <p>Ceir y cyfartaledd drwy rannu'r rhifiadur â'r enwadur.</p> <p>Sylwer: os nad yw nifer yr wythnosau gofal cartref ar gael gellir denyddio ffigur sampl, drwy luosi nifer yr oedolion sy'n derbyn gofal cartref yn wythnos lawn olaf mis Medi â 52.</p>
<p>NAWPI 3.7</p>	<p>Y gyfradd o'r bobl hŷn (65 oed neu drosodd) y rhoddwyd cymorth iddynt fyw gartref am bob 1,000 o boblogaeth yr awdurdod gwerth gorau sy'n 65 oed neu drosodd.</p>	<p>Y rhifiadur: Pobl 65 oed a throsodd y rhoddwyd cymorth iddynt fyw gartref.</p> <p>Dim ond cleientau sy'n cael pecyn gofal a ddarperir neu a gomisiynir gan yr awdurdod yn dilyn asesiad ddylai gael eu cyfrif, ac nid y rhai sydd yn unig yn cael gwybodaeth neu gyngor, gwasanaeth "mynediad agored" heb asesiad, bathodyn cerbyd neu yn syml eu hychwanegu at y gofrestr.</p> <p>Y diffiniad achos enghreifftiol Asesiadau a Phecynnau Atgyfeirio ("Diffiniad RAP"):</p> <p>Ffurflen P2 swm y tudalennau 3,5,7 rhes 'Cyfanswm yr uchod' colofn 'Cyfanswm y cleientau'.</p>

		<p>Y diffiniad Ymholiad Blynyddol ar Wasanaethau Cymdeithasol ("Diffiniad AS"):</p> <p>Ffurflen AS2 rhes 2.1 swm y tair colofn bandiau oed ar gyfer pobl 65 oed a throsodd.</p> <p>Yr enwadur: y boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd (mewn miloedd).</p>
NAWPI 3.8	Y gyfradd o drosglwyddiadau gofal a ohirir am resymau gofal cymdeithasol am bob 1000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd	<p>Y rhifiadur: Cyfanswm ar gyfer y flwyddyn o'r niferoedd misol o breswylwyr yr awdurdod gwerth gorau sy'n cael profiad o drosglwyddiad gofal wedi'i ohirio ar ddyddiad y cyfrifiad misol oherwydd y rhesymau a gynhwysir yng nghategoriâu 1 a 2 (Wedi'u Gohirio am Resymau Gofal Cymdeithasol) mewn adroddiadau Ymddiredolaethau NHS a wiriwyd gan awdurdod gwerth gorau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.</p> <p>Yr enwadur: y boblogaeth sy'n 75 oed a throsodd (mewn miloedd).</p>
NAWPI 3.9	Y ganran o oedolion o gleientau sy'n cael datganiad o'u hanghenion a sut y byddant yn cael eu diwallu	<p>y ganran o gleientau 18 oed neu drosodd a aseswyd neu a adolygwyd yn y flwyddyn sydd wedi cael copi o'u cynllun gofal.</p> <p>Diffiniad RAP:</p> <p>Y rhifiadur: 100* swm y ddau flwch 'nifer y cleientau neu'r gofalwyr sydd wedi cael neu wedi cael cynnig copi o'u cynllun gofal' ar gyfer asesu ac adolygu ar ffurflen A3.</p> <p>Yr enwadur: swm y ddau flwch 'Cyfanswm nifer y cleientau y cynhyrchwyd cynllun gofal newydd neu wedi'i adolygu iddynt' ar gyfer asesu ac adolygu ar ffurflen A3.</p>
NAWPI 3.10	Y gyfradd o asesiadau o bobl 65 oed a throsodd am bob 1000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd	<p>Y rhifiadur: Cyfanswm nifer y cleientau 65 oed neu drosodd gydag asesiadau wedi'i cwblhau neu wedi'u terfynu yn y flwyddyn at 31 Mawrth. Peidiwch â chynnwys cleientau y mae eu hasesiadau yn dal ar y gweill ar 31 Mawrth, a fydd yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn ddilynol.</p> <p>Diffiniad RAP:</p> <p>Ffurflen A1 tudalennau 1 a 2 cyfanswm y cleientau</p> <p>Diffiniad AS:</p> <p>Cyfanswm nifer y cleientau y cyfrifwyd asesiadau ar eu cyfer ar ffurflen AS1 (Ymholiad Chwarterol ar Wasanaethau Cymdeithasol ar gyfer gweithgaredd oedolion, canlyniad a rhestrau aros) rhes 1.1, colofn 6.</p> <p>Yr enwadur: Poblogaeth yr awdurdod gwerth</p>

		gorau sy'n 65 oed neu drosodd (mewn miloedd).
NAWPI 3.11	Nifer y nosweithiau o ofal seibiant a ddarperir neu a gyllidir gan yr awdurdod gwerth gorau am bob 1,000 o'r boblogaeth 18 oed neu drosodd	<p>Y rhifiadur: Nifer y nosweithiau o ofal seibiant a ddarperir i gleientau dros 18 oed. Gofal byrdymor dros nos yw gofal seibiant pan fydd oedolion yr asesir bod angen gofal arnynt, sydd fel arfer yn ddibynnol ar aelodau eraill o'u haelwydydd ar gyfer rhai agweddau o leiaf ar eu gofal a'u cymorth personol, yn cael gofal yn eu cartref eu hunain gan ofalwr arall neu mewn lle heblaw eu cartref eu hunain. Dylai'r cyfnod gofal ymwneud ag o leiaf un noson. Os bydd y cyfnod gofal am unrhyw reswm yn hwy na 3 mis, cynhwyswch hwy yn y cyfrif, ond pennwch nifer y cleientau mewn nodyn.</p> <p>Yr enwadur: Poblogaeth yr awdurdod gwerth gorau sy'n 65 oed neu drosodd (mewn miloedd).</p> <p>Diffiniad RAP:</p> <p>Cynhwyswch nosweithiau o ofal seibiant a ddarperir i gleientau a gyfrifir ar y ffurflen ganlynol:</p> <p>Ffurflen P2f swm tudalennau 1 a 3 rhes 'Cyfanswm yr uchod' colofn 'Gofal seibiant dros nos - cartref y cleient' a'r golofn 'Gofal seibiant dros nos - heb fod yng nghartref y cleient'.</p>
NAWPI 3.12	Y ganran o'r plant ar y gofrestr amdiffyn plant ("CPR"), yr adolygwyd eu hachosion.	<p>Caiff hyn ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r mynegiad <math>(A/B)*100</math> lle y mae:</p> <p>A = Plant sydd ar y Gofrestr Amdiffyn Plant ("CPR") ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a fu ar yr CPR o leiaf am y chwe mis blaenorol ac yr adolygwyd eu hachos o leiaf bob chwe mis.</p> <p>B = Plant sydd ar yr CPR ar ddiwedd y flwyddyn ariannol am o leiaf y chwe mis blaenorol.</p> <p>Dylai adolygiad ystyried diogelwch, iechyd a datblygiad y plentyn, gyferbyn a'r canlyniadau a fwriedir fel a nodir yn y cynllun amddiffyn plentyn a dylid cadw cofnod ysgrifenedig o'r adolygiad.</p>

**ATODLEN 4**  
**DANGOSYDDION TAI**

<b>Rhif y Dangosydd</b>	<b>Disgrifiad y dangosydd</b>	<b>Manylion y dangosydd</b>
NAWPI 4.1	<p>Y gyfran o anheddau sector preifat lle mae gweithredu uniongyrchol gan yr awdurdod gwerth gorau wedi golygu:</p> <p>a) anheddau an-ffit wedi'u gwneud yn ffit neu wedi'u chwalu</p> <p>b) anheddau yn dychwelyd i feddiannaeth yn ystod blwyddyn ariannol pan fuont yn sefyll yn wag am ragor na chwe mis ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.</p>	<p>(a) Y nifer o anheddau anffit yn y sector preifat a wnaed yn ffit neu a ddymchwelwyd fesul blwyddyn o ganlyniad uniongyrchol i gamau gan yr awdurdod gwerth gorau wedi'i fynegi fel cyfran o gyfanswm anheddau'r sector preifat y barnwyd eu bod yn anffit gan yr awdurdod. Dylai awdurdod gwerth gorau gynnwys unrhyw annedd a dynnwyd o nifer yr anheddau anffit yn dilyn camau uniongyrchol gan yr awdurdod gwerth gorau drwy'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhoi grantiau</li> <li>• rhoi benthyciadau ac indemniadau ar fenthyciadau</li> <li>• camau i hybu cynnal-a-chadw da: darparu gwasanaethau atgyweirio; darparu cyngor dymchwel a chlirio</li> <li>• cynlluniau atgyweirio grŵp</li> <li>• gorfodi: hysbysiadau atgyweirio, gweithredu gohiriedig neu gau</li> <li>• noddi Gofal ac Atgyweirio/Asiantaeth Gwella Cartrefi, darparu cyngor a gwasanaethau atgyweirio</li> </ul> <p>Dylai'r rhifiadur fesur y nifer blynyddol o eiddo a gafodd eu gwneud yn ffit neu a chwalwyd yn dilyn un o'r camau uchod.</p> <p>Dylai'r enwadur fod ar gael o arolwg cyflwr y stoc sector preifat a dylai fesur y nifer o anheddau a fernir yn an-ffit ar adeg yr arolwg ac ni ddylid ei ddiwygio hyd nes y gwneir yr arolwg cyflwr stoc nesaf (ni ddylid ei addasu ar gyfer anheddau sy'n dod yn an-ffit, anheddau sydd wedyn yn dod i sylw'r awdurdod gwerth gorau eu bod yn an-ffit neu anheddau a wneir yn ffit).</p> <p>(b) Nifer yr anheddau sector preifat, a fu'n sefyll yn wag am ragor na 6 mis ar ddechrau'r flwyddyn ariannol a ddychwelir i feddiannaeth yn ystod y flwyddyn ariannol o ganlyniad uniongyrchol i weithredu gan yr awdurdod gwerth gorau, (y rhifiadur), wedi'i rannu â nifer yr holl eiddo sector preifat a fu'n wag am ragor na 6 mis ar ddechrau'r flwyddyn ariannol (yr enwadur), wedi'i luosi â 100.</p> <p>Dylai'r awdurdod gwerth gorau gynnwys unrhyw annedd a lenwir oherwydd gweithredu</p>



		<p>uniongyrchol gan yr awdurdod gwerth gorau trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• grantiau, benthyciadau neu gymorth ariannol arall a ddarperir neu a hwylusir gan yr awdurdod gwerth gorau.</li> <li>• cyngor i'r perchennog ynglŷn ag un neu ragor o'r canlynol : <ul style="list-style-type: none"> <li>* llenyddiaeth a ddarperir ar strategaeth tai gwag yr awdurdod gwerth gorau</li> <li>* cyngor ynglŷn â gosod, gan gynnwys gofynion cyfreithiol a budd-dâl tai</li> <li>* cyngor ynglŷn â grantiau a chymorth ariannol arall, gan gynnwys consesiynau treth sydd ar gael</li> <li>* manylion am fforwm landlordiaid neu gynllun achredu</li> <li>* cyngor ynglŷn ag atgyweirio, gan gynnwys manylion am gontractwyr adeiladu sy'n bodloni'r safonau isaf</li> </ul> </li> <li>• cyfeiriad at landlord cymdeithasol cofrestredig yn bartner, neu at ganolwr arall gyda'r arbenigedd perthnasol</li> <li>• gweithredu i orfodi, gan gynnwys hysbysiadau atgyweirio neu orchmynion prynu gorfodol, gweithfeydd heb eu cyflawni, ymholiadau gwerthu gorfodol a wneir i sefydlu perchenogaeth eiddo a chamau ategol</li> <li>• gwneud ymholiadau i sefydlu perchnogaeth eiddo</li> </ul> <p>Mae'r rhifiadur yn mesur nifer yr anheddau hyn a gafodd eu dychwelyd i feddiannaeth yn dilyn un o'r camau uchod yn ystod y flwyddyn ariannol.</p> <p>Yr enwadur yw nifer yr anheddau a fu'n wag am chwe mis ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn hytrach nag unrhyw eiddo a oedd yn wag am chwe mis yn ystod y flwyddyn ariannol.</p>
--	--	--

<p>NAWPI 4.2</p>	<p>Effeithlonrwydd Ynni - dosbarthiad SAP cyfartalog anheddu ym mherchenogaeth yr awdurdod gwerth gorau</p>	<p>Dosbarthiad cyfartalog yr anheddu ym mherchenogaeth yr awdurdod gwerth gorau yn ôl y <i>Weithdrefn Asesu Safonol (SAP)</i>.</p> <p>Y newid blynyddol cyfartalog yn nosbarthiad SAP cyfartalog yr anheddu ym mherchenogaeth yr awdurdod gwerth gorau, a'r SAP yw mynegrif o gost flynyddol gwresogi annedd i sicrhau trefn wresogi safonol ac fe'i disgrifir fel rheol fel un sy'n rhedeg o 1 (aneffeithlon iawn) i 100 (effeithlon iawn). Mae'n fesur o'i effeithlonrwydd ynni cyffredinol ac mae'n dibynnu ar y gwres sy'n cael ei golli o'r annedd ac ar berfformiad y system wresogi.</p> <p>Mae'r dangosyddion perfformiad yn ei gwneud yn ofynnol i arolwg ynni gael ei gynnal er mwyn pennu'r waelodlin. Dylid cynnal arolygon o leiaf bob pum mlynedd. Mewn blynyddoedd pan na chynhelir arolwg ynni dylai'r awdurdodau gwerth gorau ddiweddarau'r wybodaeth a geir o'r arolwg i gymryd i ystyriaeth y gwaith a wnaed i'r stoc dros y cyfnod.</p>
<p>NAWPI 4.4</p>	<p>Costau wythnosol cyfartalog rheoli tai fesul annedd awdurdod gwerth gorau</p>	<p>Mae hyn yn cynnwys y gost ariannol o reoli tai i'r awdurdod gwerth gorau wedi ei fesur drwy wariant gwirioneddol o'r Cyfrif Refeniw Tai ("HRA") ar reoli yn y flwyddyn ariannol wedi'i rannu â nifer cyfartalog yr anheddu yn yr HRA ar ddechrau a diwedd y flwyddyn, wedi'i rannu â 52. Dylai'r wybodaeth gyd-fynd â'r wybodaeth yn furflen Flynyddol Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (HRAS) ar gyfer costau cyffredinol a chostau rheoli arbennig (celloedd 3000 a 3010).</p>
<p>NAWPI 4.5</p>	<p>Casglu rhent ac ôl- ddyledion gan awdurdod gwerth gorau:</p> <p>a) y gyfran o'r rhent a gasglwyd.</p> <p>b) ôl-ddyledion tenantiaid cyfredol fel cyfran o gyfanswm rhestr rhenti'r awdurdod.</p> <p>c) rhent a ysgrifennwyd ymaith gan na ellir ei gasglu, fel cyfran o gyfanswm rhestr rhenti'r awdurdod.</p>	<p>(a) Cyfrifir y gyfran o'r rhent a gasglwyd o'r data ar y rhent HRA gros a gasglwyd yn ystod y flwyddyn (h.y. gan gynnwys rhenti a dalwyd drwy Fudd-dâl Tai) fel cyfran o gyfanswm y rhent HRA sydd ar gael i'w gasglu yn y flwyddyn ond heb gynnwys yr ôl-ddyledion rhent o gyn-denantiaid a gronwyd cyn diwedd y flwyddyn ariannol (h.y. yr incwm rhent posibl diweddaraf ar ôl caniatáu ar gyfer anheddu gwag a chan gynnwys ôl-ddyledion chan gynnwys ôl-ddyledion tenantiaid presennol a oedd heb u talu ar ddechrau'r flwyddyn ariannol). Cyfanswm y rhent a gasglwyd yn ystod y flwyddyn yw'r rhent a gasglwyd, llai unrhyw daliadau o ôl ddyledion ar gyfer y blynyddoedd cynt oddi wrth gyn-denantiaid.</p> <p>(b) Cyfrifir yr ôl-ddyledion rhent fel cyfran o gyfanswm rhestr rhenti'r awdurdod gwerth gorau ar sail cyfanswm y rhent HRA sy'n ddyledus gan denantiaid cyfredol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a chyfanswm y rhestr rhenti HRA. Y rhestr rhenti yw cyfanswm y rhent posibl y gellid ei gasglu yn y flwyddyn ariannol am yr holl aneddu sy'n perthyn i'r awdurdod gwerth gorau, boed wedi eu gosod neu beidio. Y cyfanswm o ôl-</p>

		<p>rhent yw swm ôl-ddyledion tenantiaid blaenorol a chyfredol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.</p> <p>(c) Rhent a ysgrifennwyd ymaith fel cyfran o incwm rhenti'r awdurdod gwerth gorau - cyfrifir y rhent a ysgrifennwyd ymaith fel cyfran o'r rhestr rhenti ar sail cyfanswm y rhent HRA a ysgrifennwyd ymaith yn ystod y flwyddyn ariannol a chyfanswm y rhestr rhenti HRA. Y rhestr rhenti yw cyfanswm y rhent posibl y gellid ei gasglu yn y flwyddyn ariannol am yr holl anheddau sy'n perthyn i'r awdurdod gwerth gorau, boed wedi eu meddiannu neu beidio. Y cyfanswm a ysgrifennir ymaith yw cyfanswm ôl-ddyledion tenantiaid cyfredol a blaenorol, a ysgrifennir ymaith yn ystod y flwyddyn ariannol oherwydd na ellir eu casglu.</p>
NAWPI 4.6	Y gyfran o geisiadau digartrefedd y mae'r awdurdod gwerth gorau yn gwneud penderfyniad arnynt ac yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r ceisydd o fewn 33 diwrnod gwaith	<p>Y nifer o geisiadau digartrefedd (o dan adran 184 o Ddeddf Tai 1996, p.52) y gwnaed penderfyniad amdanynt ac yr anfonwyd hysbysiad ysgrifenedig i'r ceisydd (o dan adran 184) o fewn 33 diwrnod gwaith, fel cyfran o'r holl geisiadau digartrefedd lle gwnaed penderfyniad ac anfonwyd hysbysiad ysgrifenedig (o dan adran 184).</p> <p>Mae hyn yn gymwys i bob cais digartrefedd, gan gynnwys rhai o geiswyr lloches lle mae hysbysiad wedi'i anfon o dan adran 184. Mewn achosion ceiswyr lloches, nid oes rhaid i awdurdodau gwerth gorau aros am benderfyniad y Swyddfa Gartref ar y cais lloches cyn anfon yr hysbysiad o dan adran 184, os maent yn fodlon fod yna ddyletswydd digartrefedd.</p>
NAWPI 4.7	Cyfartaledd amserau ailosod ar gyfer anheddau'r awdurdod gwerth gorau a osodwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol	<p>Cyfrifir y dangosydd hwn o gyfanswm yr achosion gosod a wnaed yn ystod y flwyddyn (gan eithrio rhai a oedd yn cael eu gosod yn dilyn cyfnod o atgyweirio helaeth) a chyfanswm y dyddiau y bu'r anheddau hynny yn wag. Mae cyfanswm yr achosion gosod yn cwmpasu pob gosod (ac eithrio cyfnod cilyddol) yn ystod y flwyddyn ariannol, pan na wnaed gwaith atgyweirio sylweddol, a ariannwyd o raglen gyfalaf yr awdurdod gwerth gorau, yn y cyfnod pan oedd yr annedd yn wag (diffinnir gwaith atgyweirio sylweddol fel gwaith sy'n costio £2,000 neu ragor).</p> <p>Ni ddylid cyfrif annedd sy'n dod yn wag ac wedyn sy'n derbyn gwaith cyfalaf pan yn wag, ac mae'r gwaith o fath a fyddai yn cael ei wneud yn arferol gyda'r tenant yn byw yno, fel eiddo sydd wedi derbyn atgyweirio helaeth.</p> <p>Ystyr dyddiau y mae annedd yn wag yw nifer y dyddiau calendr o'r diwrnod pan ddaw'r eiddo'n wag a'r diwrnod pan ailosodir ef. Mae hyn yn cynnwys y diwrnod y daeth yr eiddo'n wag hyd at a chan gynnwys y diwrnod cyn dyddiad dechrau'r denantiaeth newydd y mae rhent yn daladwy ar ei gyfer.</p>

		Mae atgyweiriadau cyfalafol sylweddol sy'n cael eu hariannu drwy refeniw yn cyfrif fel atgyweiriadau sylweddol at ddibenion y dangosydd hwn.
NAWPI 4.8	<p>Effeithioldeb y System Dai Cymdeithasol:</p> <p>a) cyfran o eiddo gwag (anheddau gwag)</p> <p>b) y nifer cyfartalog o aelwydydd digartref mewn llety dros dro yn ystod y flwyddyn, mewn llety gwely a brecwast.</p> <p>.</p>	<p>a) Y rhifiadur yw: nifer cyfartalog y cartrefi gwag drwy'r flwyddyn ariannol sydd ar gael i'w gosod neu sy'n disgwyl neu sydd wrthi'n cael gwaith atgyweirio sylweddol.</p> <p>Yr enwadur yw: nifer cyfartalog y cartrefi o dan reolaeth drwy'r flwyddyn ariannol, ac eithrio eiddo sy'n disgwyl neu sydd wrthi'n cael gwaith atgyweirio sylweddol.</p> <p>Diffinnir gwaith atgyweirio sylweddol (neu welliannau) fel gwaith sy'n costio £2,000 neu fwy am bob annedd. Diffinnir y cyfartaledd drwy'r flwyddyn fel cyfartaledd y canlyniadau ar ddiwedd y pedwar chwarter am y flwyddyn ariannol.</p> <p>b) Dangosir nifer yr aelwydydd digartref mewn llety gwely a brecwast ar ffurflen WHO (Digartrefedd) 12 (Adolygwyd 3/01): Adran 6 llinell h: Colofn 'Cyfanswm' yn llai colofn 'Rhyddhau dyletswydd A.193'. Y cyfartaledd drwy'r flwyddyn yw cyfartaledd y canlyniadau ar ddiwedd y pedwar chwarter am y flwyddyn ariannol a gymerir o'r WHO 12.</p>
NAWPI 4.9	<p>Y nifer o anheddau'r awdurdod gwerth gorau y mae gwaith adnewyddu yn cael ei wneud iddynt yn ystod y flwyddyn ariannol fel canran o'r nifer y mae angen gwaith adnewyddu arnynt ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.</p> <p>a) gwaith yn costio rhwng £500 a £5,000</p> <p>b) gwaith yn costio dros £5,000</p>	<p>a) Asesiad yr awdurdod gwerth gorau o nifer yr anheddau yn ei berchenogaeth sydd angen gwaith atgyweirio neu wella sylweddol (yn costio rhwng £500 a £5,000) ar 1 Ebrill yn y flwyddyn flaenorol a nifer yr anheddau a gafodd y gwaith hwnnw wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol wedi'i fynegi fel canran o'r rhai sydd angen gwaith o'r fath ar 1 Ebrill yn y flwyddyn flaenorol.</p> <p>b) Asesiad yr awdurdod gwerth gorau o nifer yr anheddau yn ei berchenogaeth sydd angen gwaith atgyweirio neu wella sylweddol (yn costio dros £5,000) ar 1 Ebrill yn y flwyddyn flaenorol a nifer yr anheddau a gafodd y gwaith hwnnw wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol wedi'i fynegi fel canran o'r rhai sydd angen gwaith o'r fath ar 1 Ebrill yn y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Dylid eithrio eiddo a nodir ar gyfer dymchwel neu drosi o'r dangosydd hwn. Byddai gwaith atgyweirio a gwella sylweddol, at ddiben y dangosydd hwn, yn gymwys i waith atgyweirio a gwella sy'n costio dros £500 heb ystyried ai cyllid refeniw neu gyfalaf ydyw.</p>

		<p>Cynghorir yr awdurdodau gwerth gorau i gynnal arolygon o gyflwr y stoc leol bob pum mlynedd, gan gynnwys pob deiliadaeth. Dylai awdurdodau ddefnyddio'r rhain i amcangyfrif y gwaith sydd ei angen ar 1 Ebrill yn y flwyddyn flaenorol.</p>
<p>NAWPI 4.10</p>	<p>Y ganran o atgyweiriadau a gwblhawyd o fewn yr amser targed</p> <p>a) Wedi'u dosbarthu fel argyfwng</p> <p>b) Wedi'u dddosbarthu fel brys</p>	<p>a) Ar gyfer atgyweiriadau argyfwng a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Dylid diffinio atgyweiriad fel atgyweiriad argyfwng pan fydd: perygl i iechyd y tenantiaid; neu berygl i ddiogelwch y tenantiaid; neu risg o niwed sylweddol i adeiladau; neu risg o golled neu niwed sylweddol i eiddo'r tenantiaid, gan gynnwys colled drwy ladrad. Dylid pennu'r amser targed i gwblhau os yw'n wahanol i 24 awr. Diffinnir yr amser i gwblhau'r atgyweiriad fel yr amser a dreulir rhwng yr amser y tynnir sylw'r awdurdod gwerth gorau at yr atgyweiriad, a'r amser pan yw'r gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol.</p> <p>b) Ar gyfer atgyweiriadau brys a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Dylid diffinio atgyweiriad fel atgyweiriad brys pan effeithir yn ddifrifol ar gysur neu hwylustod y tenantiaid: neu pan fydd peidio ag atgyweirio yn peri i'r meddiannwr dynnu costau. Dylid pennu'r amser targed i gwblhau os yw'n wahanol i saith diwrnod calendr, gan ddatgan os yw'n cael ei fesur mewn dyddiau calendr neu ddyddiau gwaith. Diffinnir yr amser i gwblhau'r atgyweiriad fel yr amser a dreulir rhwng yr amser y tynnir sylw'r awdurdod gwerth gorau at yr atgyweiriad, a'r amser pan yw'r gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol. Er enghraifft, os cafwyd cais atgyweirio ar ddydd Mercher a bod y gwaith wedi'i gwblhau ar y dydd Mawrth yn yr wythnos ganlynol, y nifer o ddyddiau a dreuliwyd fyddai (Iau, Gwener, Sadwrn, Sul, Llun, Mawrth) chwe diwrnod calendr, neu bedwar diwrnod gwaith.</p> <p>I gael enghreifftiau o atgyweiriadau argyfwng neu atgyweiriadau brys gweler Rheoliadau Tenantiaid Diogel Awdurdodau Tai Lleol (Hawl i Atgyweirio) 1994 (O.S. 1994/133).</p>
<p>NAWPI 4.11</p>	<p>Yr amser cyfartalog a gymerir i gwblhau atgyweiriadau ymatebol nad ydynt yn rhai brys</p>	<p>Ar gyfer yr atgyweiriadau ymatebol nad oeddent yn rhai brys ac a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, nifer cyfartalog y dyddiau (calendr) rhwng gofyn am yr atgyweiriad ymatebol nad oedd yn un brys a'i gwblhau'n foddhaol. Dylid diffinio atgyweiriad nad ydyw'n atgyweiriad brys pan na chynhwysir ef mewn categori argyfwng neu frys, a phan na chafodd ei ymgorffori mewn rhaglen o gynnal-a chadw wedi'i chynllunio.</p>

NAWPI 4.12	A yw'r awdurdod gwerth gorau yn dilyn cod ymarfer y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ynglyn â thai ar rent neu beidio	Mae dilyn y cod yn golygu glynu at holl argymhellion y cod, ac eithrio'r rhai mewn perthynas ag arferion cyflogi, gan gynnwys gweithdrefnau i ddelio ag aflonyddu hiliol ac adrodd amganlyniadau monitro ethnig wrth bwyllgor o'r awdurdod gwerth gorau.
---------------	---	--

Sylwer: At ddibenion dangosyddion perfformiad tai gwerth gorau, diffinnir **annedd** fel adeilad, neu ran o adeilad sy'n ffurfio mangre ar wahân, neu sy'n lled ar wahân ac yn hunan-gynwysiedig, a ddyluniwyd i'w maeddiannu gan aelwyd sengl.

## ATODLEN 5

## DANGOSYDDION AMGYLCHEDDOL

Rhif y dangosydd	Disgrifiad y dangosydd	Manylion y dangosydd
NAWPI 5.1	<p>Cyfanswm y gwastraff trefol sy'n codi mewn tunelli -</p> <p>(a) canran wedi'i ailgylchu</p> <p>(b) y ganran sydd wedi'i gompostio</p> <p>(c) y ganran a ddefnyddir i adfer gwres, pŵer a ffynonellau ynni eraill</p> <p>(ch) y ganran sydd wedi'i dirlenwi</p>	<p>Ystyr "gwastraff trefol" yw'r holl wastraff a gesglir gan yr awdurdodau gwerth gorau o dan adran 45(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (1990 p.43), ynghyd â'r holl wastraff sy'n codi o Safleoedd Amwynder Dinesig a'r gwastraff a gesglir gan ailgylchudrydydd partïon y telir credydau ailgylchu casglu neu gredydau ailgylchu gwaredu amdanynt o dan adran 52 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.</p> <p>Ystyr "Safle Amwynder Dinesig" yw manau a ddarperir gan yr awdurdodau gwerth gorau lle gall personau sy'n byw yn yr ardal roi eu gwastraff cartrefi (gwasanaethau a ddarperir o dan adran 51(1)(b) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990).</p> <p>I osgoi amheuaeth, bydd yr holl wastraff a gesglir gan yr awdurdodau gwerth gorau yn cynnwys sy'n codi yn sgîl:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- rowndiau casglu gwastraff (gan gynnwys rowndiau ar wahân ar gyfer casglu deunyddiau y gellir eu hailgylchu)</li> <li>- glanhau strydoedd a chasglu sbwriel</li> <li>- glanhau traethau</li> <li>- casglu gwastraff swmpus</li> <li>- casglu gwastraff cartrefi peryglus</li> <li>- casglu gwastraff clinigol cartrefi</li> <li>- casglu gwastraff gardd</li> <li>- systemau gollwng/dod ag ef</li> <li>- clirio gwastraff wedi'i ollwng heb ganiatâd</li> <li>- gwasanaethau sgip ar y penwythnos</li> <li>- rwbel</li> <li>- cerbydau gadawedig</li> <li>- unrhyw wastraff cartrefi arall a gesglir gan yr awdurdod gwerth gorau</li> </ul> <p>(a) Ystyr "wedi'i ailgylchu" yw deunyddiau gwastraff cartrefi sydd wedi'u casglu a'u gosod ar wahân i wastraff trefol a'u prosesu wedyn i gynhyrchu cynhyrchion y gellir eu marchnata. Mae ailgylchu yn wahanol i aildefnyddio cynhyrchion oherwydd yr angen i brosesu'r deunydd sydd wedi'i adfer.</p> <p>I gyfrifo'r ganran o wastraff a ailgylchwyd, ni ddylid cynnwys rwbel, gwastraff glanhau traethau na cherbydau gadawedig yng nghyfanswm y gwastraff a gesglir.</p> <p>Cyfrifer y ganran a ailgylchwyd fel (X-W) / (Y-Z)* 100, lle y mae</p>

		<p>W = tunelli o wastraff glanhau traethau, rwbel a cherbydau gadawedig a ailgylchwyd gan yr awdurdod gwerth gorau (gan gynnwys casgliadau preifat/gwirfoddol o wastraff ar gyfer ei ailgylchu)</p> <p>X = tunelli o wastraff a ailgylchwyd gan yr awdurdod gwerth gorau (gan gynnwys casgliadau preifat/gwirfoddol o wastraff ar gyfer ei ailgylchu)</p> <p>Y = cyfanswm tunelli gwastraff cartrefi a gasglwyd gan yr awdurdod gwerth gorau gan gynnwys safleoedd amwynderau dinesig (gan gynnwys casgliadau preifat/gwirfoddol o wastraff cartrefi ar gyfer ei ailgylchu)</p> <p>Z = cyfanswm tunelli gwastraff glanhau traethau, rwbel a cherbydau gadawedig.</p> <p>(b) Ystyr "wedi'i gompostio" yw compostio ffynhonnell o wastraff trefol pydradwy wedi'i wahanu i gynhyrchu cynnyrch sefydlog sy'n ffit i'w ddefnyddio fel cyflyrydd i'r pridd ac a ddargyfeiriwyd oddi wrth dirlenwi.</p> <p>(c) Ystyr "a ddefnyddir i adfer gwres, pŵer a ffynonellau ynni eraill" yw</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- hylsgi gwastraff o dan reolaeth mewn peiriant arbenigol yn unswydd i greu pŵer a/neu wres o'r deunydd gwastraff sy'n bwydo'r peiriant</li> <li>- hylsgi o dan reolaeth tanwydd sy'n deillio o sbwriel mewn peiriant arbenigol yn unswydd i gynhyrchu pŵer a/neu wres o'r deunydd gwastraff sy'n bwydo'r peiriant</li> <li>- cynhyrchu tanwyddau nwyol drwy adweithio gwastraff carbonaidd poeth ag aer, stêm neu ocsigen (nweyddio)</li> <li>- dadelfennu gwastraff organig yn thermol i gynhyrchu cynhyrchion nwyaid, hylifol a soled drwy pyrolysis</li> <li>- dadelfennu gwastraffoedd organig yn fiolegol drwy dreuliad anaerobig.</li> </ul> <p>Ni chynhwysir y canlynol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- gweddillion lludw sydd wedi'u tirlenwi neu eu hailgylchu wedyn-</li> <li>- methan a adferwyd o dirlenwi</li> <li>- deunyddiau a adferwyd i'w hailgylchu ar ôl llosgi gwastraff</li> </ul> <p>(ch) Ystyr "wedi'i dirlenwi" yw gwastraff a roddwyd ar wyneb y tir, neu mewn strwythur a osodwyd ynddo; neu o dan wyneb y tir (mae tir yn cynnwys tir o dan ddŵr, sydd uwchlaw'r marc distyll neu'r llanw mawr cyffredin).</p>
--	--	--



<p>NAWPI 5.5</p>	<p>Y ganran o briffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyd sydd â'u safon glanweithdra yn uchel neu'n dderbyniol</p>	<p>Diffinnir 'Safon glanweithdra uchel neu dderbyniol' fel cyrraedd Graddau A neu B o'r cod ymarfer ar sbwriel a gwastraff (1999).</p> <p>Ar gyfer diffiniad o 'Tir perthnasol' gweler adran 86 o Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990 (1990 p.43).</p> <p>Ystyr 'a archwiliwyd' yw archwiliad gan ddefnyddio'r fethodoleg a bennir isod. Archwiliadau glanhau strydoedd:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rhaid i'r cleient glanhau-strydoedd weithredu neu drefnu'r archwiliadau.</li> <li>2. Dylai'r archwiliad gynnwys y strydoedd ym mharthau 1, 2 a 3 (o'r Cod Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff).</li> <li>3. Dylai o leiaf 2% o strydoedd gael eu harchwilio bob dau fis. Caiff y sampl hwn gynnwys yr un strydoedd mewn misoedd gwahanol (h.y. gall y samplau orgyffwrdd), neu gallant hyd yn oed olygu dau archwiliad ar bwyntiau gwahanol yn yr un stryd yn yr un mis, os credir bod hyn yn addas ar gyfer strydoedd hirach neu brysurach. Ond dylai nifer yr archwiliadau gyfateb i 2% o gyfanswm nifer strydoedd yr awdurdod gwerth gorau.</li> <li>4. Rhaid i'r rhaglen samplu fod yn gynrychioliadol o'r awdurdod gwerth gorau yn gyfan o ran lleoliad strydoedd a balans y strydoedd ym mhob parth. Dylid cynnal yr archwiliadau ar amserodd hap - nid yw hyn yn cynnwys monitro a weithredir ar ôl glanhau i'r diben o fonitro contract glanhau strydoedd. Er hynny, byddai monitro hap o gontract ar sail cynnyrch yn dderbyniol.</li> </ol> <p>'Archwiliad' yw archwiliad gweledol o ddarn o stryd i gyfateb y safonau ffotograffig yn y Cod Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff.</p> <p>Pan fydd awdurdodau gwerth gorau yn targedu eu harchwiliadau ar ardaloedd 'budr' amlwg, dylent addasu eu canlyniadau fel y bont yn adlewyrchu'r balans cyffredinol o'r strydoedd yn eu hardal (er enghraifft, os ydynt yn gwneud pum gwaith gymaint o archwiliadau mewn ardaloedd 'budr' ag y gwnânt mewn ardaloedd eraill), dylent gyfrifo'r canlyniad cyffredinol i'r awdurdod drwy 'ddad-bwysu'r' canlyniadau o'r ardaloedd hynny.</p>
<p>NAWPI 5.6</p>	<p>Nifer y casgliadau a gollwyd am bob 100,000 o gasgliadau gwastraff cartrefi</p>	<p>Ystyr "casgliad a gollwyd" yw</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- unrhyw gasgliad a hysbyswyd gan breswlydd/corff masnachol lle na chafodd y preswlydd ei hysbysu yn ysgrifenedig bod y trefniadau wedi'u newid</li> </ul>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>- unrhyw gasgliad y mae'r awdurdod gwerth gorau yn gwybod na chafodd ei wneud ar y diwrnod rhagnodedig am fod yr awdurdod gwerth gorau neu ei gontractiwr wedi methu, gan gynnwys y rhai a gollwyd oherwydd y tywydd neu weithredu diwydiannol</li> <li>- unrhyw gasgliad na chafodd ei wneud ar y diwrnod rhagnodedig lle na chafodd y preswylwyr eu hysbysu yn ysgrifenedig bod y trefniadau wedi'u newid</li> </ul> <p>Ystyr "diwrnod rhagnodedig" yw'r diwrnod o'r wythnos pan gâi'r sbwriel ei gasglu fel rheol.</p> <p>Ystyr "hysbysu yn ysgrifenedig" yw drwy gyfrwng sachau sbwriel wedi'u hargraffu, taflenni, papurau newydd neu unrhyw gyfrwng ysgrifenedig arall a roddir i bob cartref/busnes perthnasol gan yr awdurdod neu ei gontractiwr.</p> <p>Cyfrifer fel <math>\frac{X}{Y} \times 100,000</math>:  <math>\frac{X}{Y} \times Z</math></p> <p>Lle X = Nifer y casgliadau a gollwyd (gan gynnwys casgliadau deunyddiau y gellir eu hailgylchu ar wahân)  Y = Nifer yr eiddo fel y'u rhestrir yn Rhestr Newidiadau y Swyddfa Brisió, y tudalen o dan y teitl 'Statement of Numbers and Bands of All Properties Shown in the Valuation List for the Billing Authority Area', 'Grand Total Line'.  Defnyddiwch y datganiad diwethaf sydd ar gael cyn 1 Ebrill yn y flwyddyn ariannol.  Z = Nifer yr amserau penodedig ar gyfer casglu biniau yn y cyfnod</p>
NAWPI 5.7	Y ganran o'r boblogaeth a wasanaethir gan gasgliad wrth ymyl y ffordd o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu	Ystyr 'poblogaeth' yw'r boblogaeth yn ardal yr awdurdod gwerth gorau.

## ATODLEN 6

## DANGOSYDDION TRAFNIDIAETH

Rhif y dangosydd	Disgrifiad y dangosydd	Manylion y dangosydd
NAWPI 6.1	Cost cynnal priffyrdd am bob km a deithir gan gerbyd ar y prif ffyrdd	Y ffigur ym mlwch memorandwm M2 ar y ffurflen Alldro Cyfalaf ddiweddaraf COR1 plws llinell 2 (cynnal strwythurol) a 4 (cynnal rhigolaidd) ar y ffurflen Alldro Refeniw RO2 ddiweddaraf colofn 7; wedi'i rannu â'r ffigur am gilometrau cerbydau sy'n deillio o Dabl A yn setliad diweddaraf y Grant Cynnal Refeniw.
NAWPI 6.2	Cost gwasanaethau bysiau â chymhorthdal am bob siwrnai a wneir gan deithiwr	Y gwariant net (linell 11 ffurflen RO2) ar gymhorthdal gwasanaethau bysiau lleol, fel y'i diffinnir yn adran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (1985 p.67), yn y flwyddyn ariannol, wedi'i rannu â nifer y siwrneiau gan deithwyr ar y gwasanaethau hynny yn y flwyddyn honno. Ni ddylai hyn gynnwys gwariant ar gynlluniau tocynnau gostyngedig o dan adrannau 93 i 105 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985.
NAWPI 6.3	Cyflwr y ffyrdd  (a) Cyflwr y prif ffyrdd  (b) Cyflwr ffyrdd heblaw'r prif ffyrdd	a) Naill ai:  Arolwg gweledol o hyd yr holl briff ffyrdd yn y flwyddyn gan ddefnyddio Arolwg Archwilio Gweledol Bras (arolwg sy'n cofnodi diffygion ffyrdd a nodir drwy eu gweld). Cynhelir yr arolwg o dan Reolau a Pharamedrau System Rheoli Pafinau'r Deyrnas Unedig (UKPMS), fersiwn 2.0. Bydd yr arolwg yn cynnwys y rhwydwaith cyfan heblaw'r rhan a enwebir ar gyfer "archwiliad tybiedig" - rhaid cyfyngu honno i 30% o rwydwaith prif ffyrdd yr awdurdod. Gofynnir i'r awdurdodau gwerth gorau ddynodi'r ganran o'r rhwydwaith sydd â sgôr diffygion UKPMS o 70 neu'n uwch.  Neu:  Y ganran o'r rhwydwaith ag oes weddilliol negyddol, yn deillio o arolygon defflectograff (arolygon mecanyddol yn defnyddio offer sy'n asesu cyflwr strwythurol y ffordd drwy fesur faint y mae'n gwyro o dan lwyth).  Dangosydd: Y ganran o'r rhwydwaith priff ffyrdd cymwys ar 1 Gorffennaf yn y flwyddyn ariannol flaenorol ag iddo oes weddilliol negyddol.  b) Nid yw ffyrdd diddosbarth i gael eu cynnwys yn y dangosydd hwn.

<p>NAWPI 6.4</p>	<p>Y ganran o lampau stryd nad ydynt yn gweithio</p>	<p>Y ganran o lampau stryd nad ydynt yn gweithio. Cyfrifir hyn fel:</p> $\{(W * Y)/Z\} * 100$ <p>Ile W yw cyfanswm y methiannau goleuadau stryd a welwyd yn y flwyddyn drwy archwiliadau rheolaidd a dulliau eraill wedi'u rhannu â 365;</p> <p>Y yw'r amser a gymerwyd ar gyfartaledd i drwsio'r golau stryd ar ôl ei weld plws hanner yr amser ar gyfartaledd rhwng yr archwiliadau; a</p> <p>Z yw cyfanswm y goleuadau stryd yn yr awdurdod gwerth gorau.</p> <p>Archwiliadau gan yr awdurdod gwerth gorau neu ei asiantaethau o leiaf 4 gwaith y flwyddyn yw 'archwiliadau rheolaidd'. Os yw'r awdurdod gwerth gorau yn archwilio ei oleuadau yn fwy aml neu'n llai aml, dylai weithio'r ganran ar gyfer pob amledd drwy ddefnyddio'r fformwla uchod ac wedyn cyfuno'r canrannau yn un cyfartaledd wedi'i bwysoli.</p>
<p>NAWPI 6.5</p>	<p>Diogelwch ffyrdd</p>	<p>Nifer yr anafusion mewn damweiniau ffyrdd am bob 100,000 o boblogaeth, wedi'i ddadansoddi yn ôl (i) natur yr anafusion a (ii) y math o ddefnyddiwr ffordd.</p> <p>Categoriâu'r anafusion: a) wedi'u lladd/wedi'u hanafu'n ddifrifol; b) mân anafiadau.</p> <p>Mathau o ddefnyddiwr ffordd: a) cerddwyr; b) beicwyr; c) defnyddwyr cerbyd modur dwy-olwyn; ch) defnyddwyr ceir, a d) defnyddwyr cerbydau eraill.</p> <p>Bydd y data'n cyfeirio at y flwyddyn galendr yn diweddu 15 mis cyn diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol.</p>
<p>NAWPI 6.6</p>	<p>Nifer y dyddiau o reolaeth traffig dros dro neu o gau ffyrdd ar ffyrdd sy'n sensitif o safbwynt traffig wedi'u hachosi gan waith ar ffyrdd yr awdurdod gwerth gorau am bob km o ffordd sy'n sensitif o safbwynt traffig</p>	<p>Cyfanswm y dyddiau yr oedd rheolaeth traffig dros dro (â llaw neu drwy gyfrwng goleuadau traffig) ar waith ar ffyrdd sy'n sensitif o safbwynt traffig neu pan oedd y ffordd ar gau, oherwydd gwaith ar ffyrdd yr awdurdodau gwerth gorau am bob km o ffyrdd sy'n sensitif o safbwynt traffig. (Peidiwch â chynnwys rheolaeth draffig wrth waith ffyrdd a gwblhawyd mewn llai na diwrnod).</p> <p>Mae "sensitif o safbwynt traffig" yn golygu "traffic sensitive" fel y'i diffiniwyd yn Rheoliad 13 o Reoliadau Gwaith Stryd (Cofrestrau, Hysbysiadau, Cyfarwyddiadau a Dynodiadau) 1992 (O.S. 1992/2985).</p>
<p>NAWPI 6.8</p>	<p>Difrod i ffyrdd a phafinau</p>	<p>Cyfanswm y digwyddiadau a hysbyswyd o ddifrod peryglus i ffyrdd a phafinau ac a drwsiodwyd neu a wnaed yn ddiogel o fewn 24 awr o'r adeg y daeth</p>

		yr awdurdod gwerth gorau i wybod am y difrod gyntaf, fel canran o'r digwyddiadau hyn.
NAWPI 6.9	Y ganran o'r croesfannau cerddwyr gyda chyfleusterau i bobl anabl	<p>Ystyr croesfannau cerddwyr yw croesfannau sebra, pelican a thwcan, a goleuadau traffig gyda chyfnodau cerddwyr. Dylid cyfrif yr holl groesfannau mewn un set o oleuadau traffig, neu mewn un gylchfan, fel un groesfan yn unig. Yn yr un modd, dylid cyfrif yr holl groesfannau mewn un gylchfan fawr gyda chyfres o gylchfannau mini, fel un groesfan yn unig.</p> <p>Er mwyn cymhwyso ar gyfer cael cyfleusterau i bobl anabl, dylai fod arwyneb cyffyrddol ar bob mynedfa at y groesfan ac ymyl y palmant wedi ei ostwng neu gyfuch â'r groesfan; ac yn achos croesfannau pelican a goleuadau traffig, arwydd clywedol neu gyffyrddol i ddangos ei bod yn ddiogel i groesi'r ffordd.</p>
NAWPI 6.10	Y ganran o gyfanswm hyd y llwybrau troed a hawliau tramwy eraill sy'n hawdd eu defnyddio gan aelodau o'r cyhoedd	<p>Mae'r dangosydd hwn yn gyfanswm hyd yr hawliau tramwy, sy'n hawdd ei defnyddio, fel canran o gyfanswm hyd yr holl hawliau tramwy Mae hawliau tramwy yn ymddangos ar y map diffiniadol o hawliau tramwy cyhoeddus ar gyfer ardal yr awdurdod gwerth gorau ac wedi'u rhifo. Ystyr 'hawdd eu defnyddio' yw:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>bod iddynt arwyddion neu farciau ffordd lle maent yn ymadael â'r ffordd yn unol â dyletswydd yr awdurdod gwerth gorau o dan adran 27 o Ddeddf Cefn Gwlad 1968 (1968 p.41) ac i'r graddau angenrheidiol i ganiatáu defnyddwyr ddilyn y llwybr (gellir peidio â chynnwys yn y mesur yr hawl tramwy cyhoeddus sy'n gyfan gwbl o fewn ardal adeiledig gydag wyneb caled ar ei holl hyd a'r llwybr wedi'i ddiffinio'n eglur);</li> <li>eu bod yn rhydd rhag rhwystrau anghyfreithlon neu ymyriadau eraill, (gan gynnwys llysdyfiant sy'n hongian drosodd) rhag hawl y cyhoedd i dramwyo;</li> <li>bod eu hwynebau a'r atalfeydd cyfreithiol (e.e.camfeydd a gatau) mewn cyflwr da ac safon angenrheidiol i alluogi'r cyhoedd ddefnyddio'r ffordd heb ormod o anghyfleustra.</li> </ol> <p>Dylai archwiliadau i asesu 'hawdd eu defnyddio' gael eu seilio ar sampl hap fan lleiaf o 5% o hydoedd llwybrau yn y flwyddyn ariannol. Mae'r fethodoleg a gymeradwywyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer ei 'Archwiliad Llwybrau Cymunedol' yng nghanol y 1990au yn briodol i asesu'r dangosydd hwn.</p> <p>Dylai llwybrau fod yn "hawdd eu defnyddio" drwy gyfeirio at y math o ddefnyddiwr sydd â hawl i ddefnyddio'r llwybr (e.e. llwybrau troed i gerddwyr, a llwybrau march i rai ar gefn ceffylau).</p>

## ATODLEN 7

## DANGOSYDDION CYNLLUNIO

Rhif y dangosydd	Disgrifiad y dangosydd	Manylion y dangosydd
NAWPI 7.1	<p>Cynlluniau Datblygu:</p> <p>(a) A oes gan yr awdurdod gwerth gorau gynllun datblygu unedol wedi'i fabwysiadu?</p> <p>Os nad oes, ewch i (b) a (c)</p> <p>(b) A oes gan yr awdurdod gwerth gorau gynllun datblygu unedol wedi'i adneuo?</p> <p>(c) Pa ganran o boblogaeth yr awdurdod gwerth gorau sy'n cael ei gwmpasu gan gynlluniau lleol a fabwysiadwyd yn y pum mlynedd ddiwethaf?</p>	<p>Cynllun Datblygu Unedol: Cynllun statudol a gynhyrchwyd gan awdurdodau gwerth gorau i gynnwys polisiau strategol i ardal a datganiad ysgrifenedig o bolisiau manwl ar ddefnyddio tir a chyfiawnhad ynghyd â map o gynigion yn dangos y polisiau ar sail ddaearyddol. Pan gânt eu mabwysiadu, mae'r cynlluniau hyn yn disodli cynlluniau strwythurol a lleol mewn grym yn yr ardal.</p> <p>Adneuo: Y cam pan drefnir bod y cynllun statudol ar gael yn ffurfiol i'w archwilio'n gyhoeddus a chyflwyno gwrthwynebiadau a sylwadau.</p> <p>Cynllun lleol: Cynllun statudol sy'n nodi polisiau manwl yr awdurdod a chynigion penodedig ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn ei ardal.</p> <p>Wedi'i fabwysiadu: Fersiwn derfynol y cynllun datblygu sydd wedi'i fabwysiadu gan yr awdurdod gwerth gorau.</p>
NAWPI 7.3	Nifer y gwyradau o'r cynllun statudol a hysbysebwyd fel canran o gyfanswm y caniatadau a roddwyd	Nifer y caniatadau a roddwyd lle hysbysebwyd y cais o dan ddarpariaethau Erthygl 8(2)(b) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ddatblygu Gyffredinol) 1995 (O.S. 1995/419) fel canran o gyfanswm y penderfyniadau a wnaed.
NAWPI 7.4	Canran o gyfanswm y ceisiadau a ceisiadau a benderfynwyd o fewn 8 wythnos	Fel yn Arolwg Chwarterol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Reoli Datblygu. Wrth bennu targedau lleol dylai'r awdurdodau gwerth gorau roi sylw i'r targed cenedlaethol o 80% o fewn 8 wythnos.
NAWPI 7.6	Ansawdd mewn gwasanaeth defnyddwyr (Rhestr Gyfeirio Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru)	Mae'r dangosydd hwn yn defnyddio Rhestr Wirio'r Gwasanaeth Defnyddwyr sydd ar hyn o bryd yn cael ei pheilota gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru. Nifer y dangosyddion ansawdd a gyrhaeddir wedi'i fynegi fel cyfran o gyfanswm y dangosyddion ansawdd e.e. os yw'r

		<p>cyfanswm yn ddeg byddai awdurdod gwerth gorau sy'n cyrraedd pump o'r dangosyddion yn sgorio 5/10.</p> <p>Dyma'r dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyfforddi Aelodau a Swyddogion.</li> <li>• Gweithdrefn Gwyno wedi'i mabwysiadu</li> <li>• Mannau croesawu sy'n hygyrch i bobl anabl.</li> <li>• Siarter defnyddwyr/cynllun gwasanaeth sy'n manylu ar yr ymrwymadau gwasanaethu.</li> <li>• Archwiliad o farn defnyddwyr yn ystod y tair blynedd diwethaf.</li> <li>• Cynlluniau perfformiad a gyhoeddir yn rheolaidd. (Ystyr rheolaidd yw o leiaf unwaith bob 12 mis).</li> <li>• Targedau a osodwyd ar gyfer ymateb i ohebiaeth.</li> <li>• Crynodeb o'r dogfennau cyhoeddus allweddol sydd ar gael mewn print bras a/neu Braille.</li> <li>• Dogfennau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg a Saesneg (pan wneir cais amdanynt).</li> <li>• Dirprwyo mwy na 70% o'r achosion cynllunio i'r swyddogion.</li> <li>• Dogfennau cyhoeddus ar gael ar y Rhynggrwyd</li> </ul>
NAWPI 7.7	Y ganran o chwiliadau safonol a gwblhawyd mewn 10 diwrnod gwaith	<p>Ystyr "Chwiliad Safonol" yw'r chwiliad tir statudol a ddiffinnir ar Ffurflen LLC1 plws y chwiliad safonol a bennir yng nghod ymarfer Cymdeithas y Gyfraith ar y Ffurflen CON 29, Rhan 1 ("Ymholiadau Safonol").</p> <p>Cynhwyswch bob un o'r chwiliadau uchod, ac nid y rhai deiliaid tai yn unig, a hefyd y gwahanol ddsbarthiadau o chwiliadau os oes rhai lle y codir ffioedd chwiliadau safonol gwahanol, ac eithrio pan godir tâl ychwanegol am wasanaeth estynedig.</p>

## ATODLEN 8

## DANGOSYDDION IECHYD AMGYLCHEDD A SAFONAU MASNACH

Rhif y Dangosydd	Disgrifiad y Dangosydd	Manylion y Dangosydd
NAWPI 8.1	<p>Y ganran o'r archwiliadau adeiladau bwyd y dylid bod wedi'u cynnal a gynhaliwyd mewn gwirionedd ar gyfer:</p> <p>(a) adeiladau risg-uchel</p> <p>(b) adeiladau eraill</p>	<p>Ystyr archwiliadau a oedd i gael eu cynnal yw archwiliadau ar adeiladau perthnasol a oedd i gael eu cynnal yn ystod y y flwyddyn, yn ôl y nifer lleiaf o archwiliadau ar gyfer yr adeiladau hynny y dylid bod wedi'u cynnal at ddibenion hylendid bwyd yn unol â COP9.</p> <p>Diffinnir archwilio yng nghod ymarfer Rhif 3 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, paragraff 2 (heb gynnwys adran (f)).</p> <p>Mae "COP9" isod yn cyfeirio at Cod Ymarfer rhif 9 Deddf Diogelwch Bwyd (1990 p.16)</p> <p>ystyr "adeiladau bwyd" yw pob categori fel y'u diffinnir yn atodiad (1) o COP9</p> <p>ystyr "adeiladau risg uchel" yw adeiladau yn y categorïau risg (a) i (c) yn COP9</p> <p>ystyr "adeiladau eraill" yw adeiladau yng nghategoriâu (d) i (f) yn COP9.</p>
NAWPI 8.2/ BV166	Sgôr iechyd amgylchedd/ safonau masnach yn erbyn rhestr gyfeirio o arferion gorau gorfodi.	<p>Mae'r rhestr gyfeirio arfaethedig isod wedi'i drafftio gyda 10 pwynt, ac un neu ragor o gwestiynau ambob pwynt. Mae pob pwynt yn werth 1 marc. Mae'r cwestiwn/cwestiynau o dan bob pwynt yn werth ffraesiwn o'r marc hwnnw. Mae angen ateb "ydyw" neu "nac ydyw" i bob cwestiwn. Er enghraifft, ceir wyth cwestiwn o dan bwynt 1, felly mae ateb "ydyw" i un cwestiwn o dan bwynt 1 yn ennill sgôr o 1/8fed, ac mae "ydyw" i bum cwestiwn yn ennill sgôr o 5/8fed.</p> <p>Polisiâu Gorfodi Ysgrifenedig:</p> <p>1.(a) A yw'r awdurdod gwerth gorau wedi ysgrifennu polisi/ polisiâu gorfodi a'u cyhoeddi, wedi'u hategu'n ffurfiol gan eu haelodau, i ymdrin â phob agwedd ar orfodi iechyd amgylchedd a safonau masnachu?</p> <p>(b) A yw enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â gofynion statudol yn cael eu dilyn yn unol â'r polisi/polisiâu gorfodi?</p>



		<p>(c) A yw'r polisi/polisiau yn cadarnhau bod yr awdurdod gwerth gorau wedi llofnodi'r Concordat Gorfodi?</p> <p>(ch) A yw'r polisi/polisiau yn cymryd y canllawiau a nodir yn "The Code for Crown Prosecutors" i ystyriaeth?</p> <p>(d) A yw'r polisi/polisiau yn cynnwys y meini prawf sydd i'w bodloni cyn camau gorfodi ffurfiol gan yr awdurdod gwerth gorau?</p> <p>(dd) A yw'r polisi/polisiau yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefyllfaoedd lle mae'r swyddogaeth orfodi yn cael ei rhannu?</p> <p>(e) A yw'r polisi/polisiau yn gwneud darpariaeth ar gyfer buddiannau penodol defnyddwyr o fewn ardal yr awdurdod gwerth gorau, gan gynnwys perchnogion busnesau, gweithwyr cyflogedig a'r cyhoedd?</p> <p>(f) A yw'r polisi/polisiau uchod yn cael eu dilyn, eu monitro, ac yn destun adroddiadau, ac a fydd unrhyw amrywiadau yn cael sylw yn y cynllun gwasanaethau neu'r Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau (BVPP)?</p> <p>Gweithgareddau gorfodi cynlluniedig</p> <p>2. A oes gan yr awdurdod gwerth gorau raglenni archwilio wedi'u seilio ar risg, a chyfundrefnau samplu ac arolygu ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio sydd:</p> <p>(a) yn bodloni'r gofynion cyfreithiol;</p> <p>(b) yn rhoi sylw fel arall i ganllawiau swyddogol;</p> <p>(c) yn rhoi sylw fel arall i ganllawiau a safonau proffesiynol priodol eraill.</p> <p>Rhaid i'r awdurdod gwerth gorau allu dangos ei fod yn adolygu yn rheolaidd sut y mae'n dehongli ac yn cymhwyso'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau. Er enghraifft, ym maes safonau masnachu, dylai gynnal cymhariaeth flynyddol o'r gyfran o'i adeiladau masnachu y mae wedi'u dosbarthu fel rhai sydd â risg anchwiliadwy "uchel", "canolig" neu "isell" gyda'r ffigyrau ar gyfer awdurdodau eraill. Yna dylai fynd ati i feincnodi'r broses gydag awdurdodau eraill os yw'r cyfrannau hyn yn sylweddol wahanol i'r cyfartaledd, e.e. os yw ffigyrau'r awdurdod yn y ddengradd isaf neu uchaf.</p> <p>3. A yw'r rhaglenni a'r cyfundrefnau uchod ym Mhwynt 2 yn cael eu dilyn, eu monitro, ac yn destun adroddiadau, gan roi sylw i unrhyw amrywiadau o fewn cynllun gwasanaethau neu BVPP?</p>
--	--	---

